# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 11EG HYDREF, 2018**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 4 Hydref 2018)

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Berwyn Parry Jones
Catrin Wager
Simon Glyn

Annwen Hughes
Linda Morgan
Gethin Glyn Williams

Aled Wyn Jones
Edgar Wyn Owen
Gruffydd Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Peter Antony Garlick
Kevin Morris Jones
Elwyn Jones

Keith Jones
Mike Stevens

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels

Owain Williams

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 14eg Mehefin 2018 fel rhai cywir

**5. Y GWASANAETH SYDD YN CAEL EI DDARPARU GAN YR UNED SAFONAU MASNACH (GWARCHOD Y CYHOEDD)** 6 - 40

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

I ystyried adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd

**6. ARCHWILIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR WASANAETHAU GORFODI CYFRAITH BWYD CYNGOR GWYNEDD, 22 I 26 O CHWEFROR 2016.** 41 - 52

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

I ystyried adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd

**7. GWEITHREDU SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY AR DDATBLYGIADAU NEWYDD** 53 - 56

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Griffith**

I ystyried adroddiad Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd

**8. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO AR IAITH GYMRAEG** 57 - 61

I dderbyn diweddariad ar yr ymchwiliad

# Pwyllgor Craffu Cymunedau
# 14 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Peter Garlick, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Catrin Wager, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams a Owain Williams

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ail - ethol y Cynghorydd Seimon Glyn yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2018/19.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ail - ethol y Cynghorydd Mike Stevens yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2018/19.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Keith Jones a Linda Morgan,

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22.2 2018 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**5. DIWEDDARIAD YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG**

Yn dilyn cyfarwyddyd cyfreithiol mynegodd y Cadeirydd, oherwydd anghysondebau rhwng cynnwys yr adroddiad a'r ddogfen hwyr a ddosbarthwyd (cofnodion Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 26.4.18) nad oedd modd trafod pob cymal o'r adroddiad. Yn dilyn y cyngor cyfreithiol, penderfynodd y Cadeirydd mai gwell fyddai gohirio yr eitem. Ychwanegodd ei fod am wneud cais i gadeirydd yr ymchwiliad ynghyd a'r aelodau i edrych ar yr anghysondebau a chynnig sylwadau.

**PENDERFYNWYD gohirio yr eitem**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:10am


| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **11 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Y gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu gan yr Uned Safonau Masnach (Gwarchod y Cyhoedd)** |
| **AWDUR** | **DAFYDD WILLIAMS, PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG** |
| **PWRPAS** | **Codi ymwybyddiaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Uned Safonau Masnach, allbynnau'r gwaith a'r heriau** |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma'n amlinellu'r gweithgareddau sy'n cael eu delio a hwy yn yr Uned Safonau Masnach. Mae'r Uned Safonau Masnach yn rhan o'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd o fewn yr Adran Amgylchedd.

1.2 Fe fydd yr adroddiad yn esbonio natur gwaith yr uned, yn amlinellu'r newidiadau sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf a'r heriau sydd o'n blaenau. Cylchredwyd taflen gwybodaeth i Aelodau yn ddiweddar yn ymwneud a gweithgareddau Safonau Masnach a cheir copi o'r daflen hon fel atodiad.

**2. GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD O FEWN YR ADRAN AMGYLCHEDD**





2.1 Mae tair Uned yn y gwasanaeth sydd yn delio'n benodol gyda dyletswyddau Gwarchod y Cyhoedd sydd yn cynnwys Safonau Masnach, Rheolaeth Llygredd, a'r Uned Lles, Iechyd a Diogelwch. Mae dyletswyddau'r Unedau yn benodol berthnasol i ardal y Sir i gyd, gyda dyletswyddau'r Unedau'n cael ei gweithredu o'r tair ardal gyda chefnogaeth hefyd yn y tair ardal gan yr Uned Gefnogol.

**3. UNED SAFONAU MASNACH**

3.1 Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb statudol i ddarparu gwasanaeth Safonau Masnach ac mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i orfodi amrediad eang o ddeddfwriaeth sydd wedi'u dirprwyo i'r Pennaeth Adran Amgylchedd. Er bod y rhan fwyaf o ddyletswyddau Safonau Masnach yn faterion sy'n perthyn i Lywodraeth y DU, mae rhai yn faterion datganoledig i Lywodraeth Cymru e.e. Bwyd, Amaethyddiaeth ac Iechyd Anifeiliaid.

3.2 Mae'r Uned Safonau Masnach wedi ei rannu i ddau is-dîm, gydag un tîm yn cynnal gweithgareddau cyffredinol Safonau Masnach a'r tîm arall yn gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud ac Iechyd a Lles Anifeiliaid ac Amaethyddiaeth/Bwyd Anifeiliaid.




3.3 Mae'n rhaid i'r Uned benderfynu'r dull orau o gyflawni eu dyletswyddau rheoleiddio a chysidro'r cydbwysedd rhwng gweithgareddau ataliol ac adweithiol er mwyn gwarchod defnyddwyr a chefnogi busnesau. Nid yn unig mae penderfyniadau o'r fath yn cael eu heffeithio gan flaenoriaethau lleol ond mi fydd hapddalwyr allanol hefyd yn cael effaith e.e. Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), Swyddfa Diogelwch Nwyddau & Safonau, Adran yr Amgylchedd, Bwyd & Materion Gwledig, Mae'r gwasanaeth yn darparu gweithgareddau craidd ar sail 'intelligence' a risg.

## 4.0 NEWIDIADAU YN YR UNED SAFONAU MASNACH

4.1 Yn 2011-12 roedd y gwaith Safonau Masnach ac Iechyd a Lles anifeiliaid / Bwyd Anifeiliaid yn cael ei wneud gan ddwy Uned ar wahân gyda dau Reolwr ar wahân. Gyda'r ddwy Uned hon, roedd saith Uned yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar y pryd. Y sefyllfa gyfredol wrth gwrs yw bod y gwaith yma i gyd yn dod o fewn un Uned ac yn cael ei reoli gan un Rheolwr.

4.2 Mae deuddeg o swyddogion yn yr Uned sydd yn adrodd i'r Rheolwr Llinell. Nodir hefyd, yn sgil y newidiadau'n strwythur staff y Gwasanaeth fod swyddogion yn gweithio ar draws y 3 Uned Gwarchod y Cyhoedd fel ac y mae heddiw, gyda swyddogion yr Uned hon yn cyfrannu tuag at y gwaith yr Uned Lles, Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu.

4.3 Mae'r newid sylweddol sydd wedi bod yn strwythur y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd dros y 6 mlynedd diwethaf wedi gweld nifer o swyddi'n cael eu torri ac arbenigedd yn cael ei golli'n

sgil hynny. Roedd y swyddi hyn yn cynnwys swyddi o'r Uned Safonau Masnach. Dangosir isod y newidiadau mewn niferoedd staff Gwarchod y Cyhoedd (sydd yn cynnwys staff Cefnogol) dros y 6 mlynedd diwethaf:

| **Blwyddyn** | **Nifer staff** |
|---|---|
| 2011/12 | 63.10 |
| 2017/18 | 42.80 |

Gwelir uchod bod oddeutu 20 o swyddi wedi eu torri o'r Gwasanaeth dros y 6 mlynedd diwethaf sydd gyfystyr a 32% o doriad mewn nifer staff Gwarchod y Cyhoedd (hyn yn cynnwys staff Cefnogol).

## 5. TÎM SAFONAU MASNACH

### 5.1 Natur Gwaith

5.1.1 Prif bwrpas y gwasanaeth yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion busnes sydd â'r potensial o fod yn niweidiol, drwy sicrhau bod busnesau manwerthu yn mabwysiadu ac yn cynnal trefnau ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes.

5.1.2 Mae'r Uned yn canolbwyntio ac yn rhoi adnodd tuag at daclo unrhyw weithgareddau risg uchel a busnesau nad ydynt yn cydymffurfio ac mae blaenoriaethau'r Uned yn cyd-fynd a'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol:-

- Taclo arferion masnachu twyllodrus
- Cefnogi busnesau cyfrifol
- Gwarchod defnyddwyr bregus
- Gwella iechyd

5.1.3 Swyddogaethau cyfredol yn cynnwys:-

- **Masnach Deg** - yn cynnwys prisiau, disgrifiadau ar nwyddau a gwasanaethau, telerau ac amodau, prynu a thrwsio ceir, gwyliau, prynu a gwerthu tai, gwelliannau i'r cartref ayb



- **Sgamiau** - Mae'r hwb Safonau Masnach Genedlaethol yn dal cronfa ddata ar ddioddefwyr ar draws y DU. Mae'r hwb yn cyfeirio'r data i'r Uned Safonau Masnach er mwyn iddynt gysylltu â dioddefwyr a chynnig cymorth er mwyn atal unrhyw fygythiad pellach.

  Mae Swyddogion o'r Uned yn parhau i weithio mewn partneriaeth a Gwasanaethau Cymdeithasol / Diogelwch Cymunedol ac yn darparu cyflwyniadau a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol, aelodau staff gofal, staff banciau lleol ayb ac yn gallu trefnu i ddefnyddwyr bregus dderbyn teclyn i atal galwadau ffôn niwsans ble'n briodol.

- **Troseddu wrth y drws a galwyr digroeso yn cynnwys Benthyca Arian yn Anghyfreithlon (Doorstep Crime/Cold Calling/Illegal Money Lending)** - Fe all y math yma o drosedd effeithio defnyddwyr o amryw o oedran, ond mae'r mwyafrif o ddioddefwyr sy'n cael eu targedu yn oedrannus ac yn fregus. Mae'r data hefyd yn dangos fod y nifer o achosion yn gysylltiedig â Grwpiau Masnachwyr Twyllodrus (Organised Crime Groups). Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn crybwyll cael gwell sustem i ddiogelu oedolion a phlant bregus. Drwy weithio mewn partneriaeth, mae'n ddyletswydd a chyfrifoldeb ar holl sefydliadau cyhoeddus i ddiogelu buddiannau'r bregus, yn cynnwys y maes camddefnydd ariannol.

- **Addysgu a Chynghori Defnyddwyr** - Ceisio sicrhau bod gan ddefnyddwyr yr offer llaw a'r wybodaeth berthnasol i ddelio a'r amgylchedd fasnachu fodern. Mae addysgu defnyddwyr yn hanfodol i sefydlu a chynnal hyder prynwyr a busnesau. Mae'r Uned hefyd yn gwneud cyflwyniadau i grwpiau cymunedol lleol, pobl fregus ayb ac yn gweithio mewn partneriaeth ac asiantaethau eraill i gael amryw o negeseuon a chyngor i ddefnyddwyr.




- **Rheolaeth tybaco anghyfreithlon**– mae'n bosib diffinio tybaco anghyfreithlon fel yr isod:-

1. Tybaco wedi ei 'smyglo (bootleg) – wedi cael ei fewnforio heb dalu toll
2. Sigaréts ffug / counterfeit
3. 'Illicit Whites' - wedi eu cynhyrchu yn Nwyrain Ewrop neu Asia

- **Diogelwch nwyddau –** mae'r gyfraith yn dweud fod rhaid i nwyddau, newydd ac ail law, sy'n cael eu gwerthu fod yn ddiogel. Mae Swyddogion yn cynnig cyngor ac yn gorfodi deddfwriaeth eang er mwyn sicrhau diogelwch nwyddau a gwarchod defnyddwyr.



- **Gwerthu nwyddau sydd â chyfyngiad oedran arnynt** - Yn dilyn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi mesur ar gyfer iechyd a lles plant yn edrych ar y % o blant gyda llai na dau ‘ffyrdd o fyw’ iach. Mae’r pedwar ymddygiad iach yn ymwneud ac ysmygu, defnydd alcohol, gweithgaredd corfforol a ffrwythau a llysiau. Mae gan yr Uned Safonau Masnach rôl arwyddocaol i geisio gwneud hi’n anodd i blant brynu nwyddau’n anghyfreithlon o siopau.

- **Nwyddau ffug a chopïau brandio -** mae troseddau yn ymwneud a nwyddau ffug (yn cynnwys tybaco anghyfreithlon) yn costio miliynau i’r economi bob blwyddyn. Y prif safleoedd gwerthu'r dyddiau yma yw’r we / gwefannau cymdeithasol.

- **Pwysau a Mesurau -** mae holl nwyddau dyddiau yma yn cael eu gwerthu fesul pwysau neu fesur. Mae’r Uned yn gyfrifol am orfodi set eang o reoliadau cymhleth sy’n sicrhau fod y cyhoedd yn derbyn y swm iawn o unrhyw nwyddau a brynwyd. Rhan o’r gwaith yw sicrhau fod gan y cyhoedd a busnesau hyder wrth brynu a sicrhau cystadleuaeth deg drwy wirio bod offer pwyso a mesur yn gywir, gwirio amryw o nwyddau sydd ar gael mewn siopau, ymateb i gwynion am fesur byr, mesurau anghywir o danwydd, deunyddiau adeiladu ac ati.

  Mae’r Uned hefyd yn darparu gwasanaethau gwirio a chalibro ar gyfer offer pwyso a mesur, a chodir tâl am hyn.



- **Petroliwm a Ffrwydron -** Mae'r Uned hefyd yn gyfrifol am drwyddedu, a gorfodi amodau trwyddedu, mewn eiddo sy'n gwerthu tân gwyllt a phetroliwm.

  Mae’r Gwasanaeth yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gyflawni eu hamcanion:

- Ymateb i geisiadau am wasanaeth gan aelodau’r cyhoedd;
- Archwilio busnesau i wirio eu bod yn cydymffurfio
- Cymryd camau dilynol ble mae unrhyw dor-cyfraith wedi'i ddarganfod.
- Rheoli gweithgareddau sydd â’r potensial i fod yn broblemus drwy Drwyddedau

- Darparu cyngor cychwynnol i fusnesau newydd ynghyd â diweddariadau ar ddeddfwriaeth newydd
- Profi cynnyrch defnyddwyr ar gyfer ansawdd a diogelwch yn cynnwys profi peiriannau pwyso, pympiau petrol ac ati i wneud yn siŵr eu bod yn gywir
- Sicrhau nad yw nwyddau sydd â chyfyngiad oedran arnynt yn cael eu gwerthu'n anghyfreithlon
- Codi ymwybyddiaeth o hawliau defnyddwyr yn benodol yng nghyswllt grwpiau bregus.

**5.2 Allbynnau a'r bûdd i drigolion Gwynedd**

5.2.1 Mae'r Uned yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Safonau Masnach mewn dros 8000 o fusnesau yng Ngwynedd. Mae hefyd yn gyfrifol am orfodaeth ar-lein ac am gytundebau eraill a wneir trigolion Gwynedd gyda chwmnïau o du allan i Wynedd.

5.2.2 Gellir dadansoddi gweithgareddau craidd yr Uned fel a ganlyn:-

<u>Ymdrin â Cheisiadau am Wasanaeth, Ceisiadau Trwyddedau, Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth</u>

Mae 'Ceisiadau am Wasanaeth' yn cynnwys cwynion gan ddefnyddwyr, cyfeiriadau a hysbysiadau gan y Gwasanaeth Cynghori Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, ceisiadau am gyngor busnes ac ati.

| 2017/18 | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau am wasanaeth | 1776 |
| Cofrestru Storio Nwyddau Ffrwydrol | 21 |
| Trwydded Cyflenwi Tân Gwyllt – drwy gydol y flwyddyn | 1 |
| Trwyddedau Storio Gwirod Petroliwm | 18 |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 12 |

<u>Ymchwiliadau/Achosion</u> (canfod ac adfer diffyg cydymffurfiaeth)

| 2017/18 | Nifer o ymchwiliadau/achosion |
|---|---|
| Ymchwiliadau/Achosion | 70 |

<u>Sefydlu cyswllt gyda busnesau newydd ac archwilio busnesau</u>

Mae cysylltu â busnesau newydd yn ffordd effeithiol o sefydlu perthynas bositif ac agored gyda masnachwyr a sicrhau nad ydynt yn torri'r rheolau oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'r gyfraith.

| 2017/18 | Nifer o archwiliadau |
|---|---|
| Archwilio busnesau | 233 |

Calibro/Gwirio

Yn ogystal â gwirio a phrofi offer pwyso a mesur a ddefnyddir yn fasnachol yn rheolaidd fel rhan o'i swyddogaeth mesureg, mae'r Uned hefyd yn cynnal profion ar offer pwyso a mesur ar gais.Codir ffi am brofion o'r fath. Codir ffi ychwanegol ar gyfer darparu tystysgrif calibro sy'n nodi canlyniadau'r profion ar gais.

| 2017/18 | Nifer o geisiadau |
|---|---|
| Ceisiadau am Wirio/Calibro (codir ffi) | 8 |

Gweithgareddau eraill

- Twyll / Sgamiau – ymweliadau i holl ddioddefwyr bregus a oedd yn flaenoriaeth.

- Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio amryw o ddulliau hyrwyddo i ledaenu negeseuon ataliol ac i geisio rhoi' grym i ddefnyddwyr a chymunedau. Yn ystod y flwyddyn mae swyddogion yn paratoi amryw o ddatganiadau i'r wasg, yn cynnal cyfweliadau radio ac yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gyfathrebu i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi defnyddwyr a busnesau a chodi ymwybyddiaeth o faterion cyfrwys.

**5.3 Heriau**

5.3.1 Mae'n rhaid parhau i flaenoriaethu'r gwaith ar sail risg, rheoli disgwyliadau, sicrhau ansawdd a cheisio cyflawni mwy gyda llai o Adnoddau. Dros y blynyddoedd, rydym wedi gweld lleihad yn y nifer o ymweliadau/ymyrraeth raglenedig i fusnesau yn ogystal â lleihad mewn gwyliadwriaeth marchnad a gwaith cyffredinol i godi ymwybyddiaeth o faterion Safonau Masnach. Yn genedlaethol mae'r gwaith Safonau Masnach yn symud tuag at drefn sydd yn rhagweithiol (intel-led) yn hytrach nac adweithiol ond mae'r Uned yn parhau i geisio adweithio a delio gyda chwynion yn lleol y gorau gallent.

5.3.2 Wrth ystyried sut mae'r Uned yn derbyn gwybodaeth/intel, mae'n bwysig nodi rôl y llinell gymorth Genedlaethol 'Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth'. Y syniad tu cefn i sefydlu'r drefn oedd bod y llinell gymorth yn darparu cyngor effeithiol i ddefnyddwyr ar faterion sifil yn unig a bod hyn yn galluogi i'r Gwasanaethau Safonau Masnach flaenoriaethu unrhyw faterion troseddol/gorfodaeth sy'n ymwneud a'r cwyn.

5.3.3 Nid yw'r Uned eisiau gweld busnesau yn methu cydymffurfio ac mae'n rhaid bod yn realistig ynglŷn ag anghenion busnesau cyfrifol ac am roi cyfleoedd i fusnesau gywiro problemau. Mae'r Uned yn cydnabod gwerth busnesau lleol i'r economi ac eisiau cefnogi ffyniant economaidd a thyfiant ond wrth gwrs mae'n rhaid cydbwyso hyn gyda'r angen i gymryd achos ymlaen a gorfodi ble'n briodol.

5.3.4 Mae E-fasnach, sef defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a'r we, yn cynyddu bob blwyddyn ac felly mwy o bobl yn gwerthu drwy'r dulliau hyn. Yn anffodus mae'r we yn llwyfan perffaith i fasnachwyr twyllodrus ac maent yn cymryd mantais ar gyfleustra'r we a pa mor sydyn mae technegau newydd yn datblygu er mwyn twyllo defnyddwyr.

5.3.5 Grwpiau troseddau cyfundrefnol (Serious and Organised Crime Groups) - mae'r rhain yn cael effaith ar bob maes Safonau Masnach. Troseddwyr a oedd yn flaenorol yn ymgymryd â

throseddau 'risg uchel' rŵan yn symud i droseddu mewn meysydd gyda llai o 'risg' / dedfryd ayb. Mi fydd Swyddogion Safonau Masnach yn gorfod addasu a mabwysiadu dulliau a thactegau newydd wrth ymchwilio achosion gan fod troseddwyr o'r fath yn rheolaidd yn newid eu tactegau a'u dulliau o weithio er mwyn osgoi cael eu dal.

5.3.6 Pwysau a Mesurau – mae lleihad mewn niferoedd o Swyddogion Pwysau a Mesurau a diffyg hyfforddai o fewn y sustem.

## 6.0 TÎM IECHYD A LLES ANIFEILIAID AC AMAETHYDDIAETH/BWYD ANIFEILIAID



### 6.1 Natur y gwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

6.1.1 Mae delio ag achosion afiechyd anifeiliaid yn statudol ac yn gallu arwain at oblygiadau i iechyd cyhoeddus, yr amgylchedd a'r economi ac yn ddrud iawn i'w rheoli. Mae'r ffordd y mae anifeiliaid yn cael eu trin hefyd yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd gymdeithas. Mae'r Uned yn ceisio sicrhau fod anifeiliaid yng Ngwynedd yn cael eu trin yn dda a ddim yn dioddef. Maent yn gwneud hyn drwy amryw o ffyrdd:-

- Adnabod achosion o hwsmonaeth anfoddhaol.
- Ymchwilio achosion yn ymwneud ac afiechydon anifeiliaid (nodir goblygiadau afiechyd traed a'r genau yn 2001).
- Ymweld a monitro marchnadoedd a sioeau anifeiliaid - hyn yn rhoi cyfle i gysylltu â ffermwyr a chael gwybod am unrhyw faterion, rhoi cyngor ayb.
- Gwirio cerbydau a ddefnyddir i gludo anifeiliaid.
- Gorfodi deddfwriaeth yn ymwneud a gwaredu gweddillion anifeiliaid.
- Ymweld â busnesau yn seiliedig ar risg.
- Darparu ymateb argyfwng ar gychwyn unrhyw achos clefyd anifeiliaid.

6.1.2 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i orfodi deddfwriaeth eang yn ymwneud ac Iechyd Anifeiliaid ac mae dyletswydd i gynnal archwiliadau i fonitro cydymffurfiaeth, darparu cyngor ac ymchwilio cwynion.

6.1.3 Yn dilyn cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru yn 2015 i drafod dulliau newydd o weithio mewn partneriaeth, sefydlwyd trefn newydd ble mae cynghorau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gorfodaeth a chynnig cyngor yn y maes a sefydlwyd cynllun cenedlaethol.

## 6.2 Allbynnau

Ymateb i geisiadau am Wasanaeth

Mae 'Ceisiadau am Wasanaeth' yn cynnwys cwynion gan ddefnyddwyr, cyfeiriadau a hysbysiadau gan y Gwasanaeth Cynghori Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, ceisiadau am gyngor busnes, rhoi gwybod am symudiadau anifeiliaid amheus ac ati.

| **2017/18** | **Nifer o geisiadau** |
|---|---|
| Ceisiadau am wasanaeth | 463 |

Ymchwiliadau / Achosion (canfod ac adfer diffyg cydymffurfiaeth)

| **2017/18** | **Nifer o ymchwiliadau/achosion** |
|---|---|
| Ymchwiliadau / Achosion | 213 |

Archwilio busnesau risg uchel

| **2017/18** | **Nifer o archwiliadau** |
|---|---|
| Eiddo Risg Uchel | 22 (4 eiddo wedi cau) |

Sefydlu cyswllt gyda busnesau newydd ac archwilio busnesau risg canolig ac isel

Mae cysylltu â busnesau newydd yn ffordd effeithiol o sefydlu perthynas bositif ac agored gyda masnachwyr a sicrhau nad ydynt yn torri'r rheolau gan nad ydynt yn ymwybodol o'r gyfraith. Mae archwilio busnesau Risg Canolig yn dilyn y model archwilio busnesau Risg Uchel uchod ond bod amlder yr archwiliadau bob tair blynedd. Amlder archwilio busnesau Risg Isel yw bob pum mlynedd.

| **2017/18** | **Nifer o ymweliadau** |
|---|---|
| Ymweliadau busnesau risg canolig/isel a busnesau newydd | 139 |

## 6.3 Natur y gwaith - Amaethyddiaeth/Bwyd Anifeiliaid a chyfrannu tuag at ddarparu gwasanaeth bwyd anifeiliaid rhanbarthol.

6.3.1 Mae porthiant yn ddarn hanfodol o'r gadwyn fwyd ac yn cael effaith ar safon a chyfansoddiad cynnyrch anifeiliaid (llefrith, cig, wyau ayb). Mae'n wasanaeth statudol ac mae'r Ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn ymwneud a bwyd ar gyfer anifeiliaid ar fferm ond hefyd yn cynnwys bwyd i geffylau, anifeiliaid anwes, pysgod wedi ei ffermio, anifeiliaid sw a syrcas ayb

6.3.2 Fel rhan o’r gwaith mae’r Uned yn ceisio sicrhau bod busnesau yn mabwysiadu ac yn cynnal gweithdrefnau a chydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'w busnes e.e. drwy atal ac ymchwilio i ddigwyddiadau fel a ganlyn:-

- cam-ddisgrifio bwyd anifeiliaid gan wneuthurwyr,
- gwerthu a defnyddio bwydydd anifeiliaid sydd wedi’u halogi,
- bwyd anifeiliaid israddol (h.y. heb ei gyfansoddi’n gywir neu wedi’i ddisgrifion anghywir),
- samplo/dadansoddi bwyd anifeiliaid i sicrhau ansawdd,
- sicrhau hylendid a rheolaeth foddhaol a
- gweithredu ar unrhyw gynnyrch sy’n cael ei ‘alw yn ôl’ (product recalls).

6.3.3 O ran y gwaith Bwyd Anifeiliaid (Feed Law Enforcement), mae’r dull gorfodaeth sy’n ymwneud a’r Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 a deddfwriaethau DU ac UE wedi’i nodi yn y Cod Ymarfer statudol. O dan y Ddeddf, mae gofyn i Awdurdodau Bwyd ystyried y Cod hwn wrth ymgymryd â’u dyletswyddau. Golyga hyn, mewn gwirionedd, bod rhaid i Awdurdodau ddilyn a gweithredu darpariaethau’r Cod hwn sy’n berthnasol iddynt.

6.3.4 Mae’r drefn yn unigryw gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) o ran gorfodaeth ‘bwyd anifeiliaid’. Mae cynllun rhanbarthol yn bodoli gyda Phrif Swyddog o Wrecsam yn arwain ar ran Gogledd Cymru ac yn dyrannu ymweliadau sy’n ‘due’ rhwng y chwe awdurdod yn seiliedig ar y math o eiddo. Mae’r awdurdod perthnasol wedyn yn cael taliad penodedig am bob archwiliad (yn ddibynnol ar faint o arian oedd gan yr ASB ar gyfer cyflawni gorfodaeth bwyd anifeiliaid yng Nghymru). Oherwydd adnoddau, mae’r nifer o archwiliadau sy’n ddisgwyliedig fel rhan o’r cynllun ASB yn dipyn is na’r ffigwr cyflawn o eiddo sy’n ‘due’ archwiliad yng Ngwynedd. Nodir fod oddeutu 2000 o ffermydd yng Ngwynedd. Er hynny, mae’r archwiliadau yn cael eu blaenoriaethu o ran y risg (Risg Sgôr 1 = bob blwyddyn, Risg Sgôr 2 =bob 2 flynedd ayb) a’r math o eiddo.

**6.4 Allbynnau**

Yn 2017/18 cafodd Gwynedd £35k o’r arian am gwblhau’r gwaith a gafodd ei glustnodi i Wynedd.

| **2016/17** | **Nifer** |
|---|---|
| Ymweliadau | 194 |
| Samplau | 7 |
| Cyngor Busnes | 39 |

## 6.5 Heriau

6.5.1 Gyda'r lleihad mewn adnodd sydd ar gael i'r Uned mae'n anorfod nad yw'r un lefel neu fath o wasanaeth a ddarparwyd yn flaenorol bellach yn medru cael ei ddarparu. O reidrwydd mae mwy o bwyslais ar asesu risg wrth sefydlu sut neu os ydym am ddelio a materion ddaw i'n sylw, sydd yn creu risgiau ohono'i hun ran;

- rheoli disgwyliadau asiantaethau allanol, busnesau a thrigolion Gwynedd,
- cwrdd â'n goblygiadau statudol a
- chaniatáu amgylchiadau gall ddiweddu mewn effaith economaidd negyddol sylweddol.

6.5.2 Rhoi ymddiried mewn cwmnïau megis 'Assurance / Earned Recognition' a "Red Tractor/FAWL" ac ati yn cynyddu ac yn debygol o barhau. Yr amcan yw ceisio cael y diwydiant i reoli ei hun fwy, fel bod yr angen am archwiliadau yn digwydd yn llai aml, ond mae cwestiynau a phryder ynglŷn â pha mor effeithiol a chadarn y bydd trefn o'r fath. Mae'r côd ymarfer yn nodi fod rhaid i unrhyw swyddog sy'n gorfodi gwaith 'ffîd' ddal cymhwyster penodol ac mae pryder yn codi o safbwynt a fydd swyddogion sefydliadau o'r fath yn dal y cymhwyster / cymhwysedd priodol a gwir yn annibynnol.

6.5.3 Potensial i swyddogion cymwys gael eu tynnu oddi ar waith bwyd anifeiliaid oherwydd adnoddau/blaenoriaethau eraill ac felly yn cael effaith ar y cynllun cenedlaethol.

6.5.4 Adolygiad o'r Cod Ymarfer - er mwyn bod canolbwyntio ar safon yn hytrach na chanolbwyntio ar y nifer o ymweliadau.

6.5.5 Cynnal cofrestr bwyd anifeiliaid cyfredol a chywir yn hanfodol.

6.5.6 Mae ansicrwydd ynglŷn â darpariaeth cyllid gan yr Asiantaeth Safon Bwyd ar gyfer yr hir dymor.

6.5.7 Ansicrwydd yn dilyn 'Brexit - o safbwynt y maes Amaethyddol effaith bosib ar daliadau/grantiau ffermwyr a phosibilrwydd bod yr arian a fydd ar gael yn llai. Risg bod hyn yn effeithio safon reolaeth ffermydd a risg bod safonau cyffredinol yn disgyn. Y mwyafrif o ffermydd yng Ngwynedd yn daliadau da-byw (cig eidion / cig oen) a gyda'r potensial o'r DU yn gadael heb gytundeb mae'n bosib i hyn arwain at doll uchel am allforio cig i'r UE ac felly yn cael effaith negyddol ar y farchnad.

Wales Heads of Trading Standards
Improving Trading Standards in Wales

Penaethiaid Safonau Masnach Cymru Yn Gwella Safonau Masnach Yng Nghymru

# SAFONAU MASNACH YN EICH CYNGOR CHI

## Llawlyfr Aelodau

2018



www.tradingstandardswales.org.uk

## CYNNWYS


- RHAGAIR
- CYFLWYNIAD I'R GWASANAETHAU SAFONAU MASNACH
- SUT MAE BLAENORIAETHAU SAFONAU MASNACH CYMRU YN CAEL EU PENDERFYNU
- THEMA 1: GWELLA IECHYD
- THEMA 2: DIOGELU DEFNYDDWYR SY'N AGORED I NIWED
- THEMA 3: GWARCHOD UNIONDEB Y GADWYN FWYD
- THEMA 4: MYND I'R AFAEL AG ARFERION MASNACHU TWYLLODRUS
- THEMA 5: CEFNOGI BUSNESAU CYFRIFOL
- Y DARLUN CENEDLAETHOL A DARPARU GWERTH YCHWANEGOL

# RHAGAIR

**Lluniwyd y Llawlyfr hwn i chi gan Benaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHOTS). Gweithredwn o dan nawdd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (DPPW), a darparwn rôl strategol ac arwain i holl wasanaethau unigol Safonau Masnach Cymru. Mae ein haelodaeth yn cynnwys pob Uwch Reolwr yn y 22 Awdurdod Cyngor.**

Lluniwyd y Llawlyfr i helpu Aelodau Cyngor lleol i ddeall rôl allweddol eu gwasanaeth Safonau Masnach. Gwyddom yn iawn ei bod yn hawdd, i wasanaeth bychan, weithredu o dan radar Aelodau – a hynny'n aml yn anfwriadol.

Fodd bynnag, byddem wrth ein bodd pe na fyddai Aelodau'n derbyn ein gwasanaethau ar eu golwg, oherwydd gallwn wneud gwahaniaeth mewn cynifer o agweddau ar fywyd pob dydd. Mae gweithredu o dan y radar yn rhoi camargraff o wasanaeth hynod bwysig sy'n gallu dylanwadu ar feysydd polisi Llywodraeth Cymru a chynghorau.

Gwyddom yn iawn fod cyfansoddiad a rheolaeth wleidyddol Cynghorau Cymru wedi newid cryn dipyn ers yr etholiadau Cyngor ym mis Mai 2017. O ystyried hyn, gobeithiwn y bydd y Llawlyfr hwn yn amhrisiadwy i Aelodau newyddach yn ogystal â'r rheini sydd yn eu swyddi ers tro.

Lluniwyd fersiwn flaenorol o'r Llawlyfr hwn ddiwethaf yn 2012. Ers hynny bu ein gwasanaethau'n brwydro heriau ynghylch y ffordd orau o wireddu'r cyfleoedd lleol a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hynny gan fynd i'r afael â phwysau rheoli ad-drefnu ac uno. Yn sgil torri cyllidebau cynghorau'n barhaus, mae Safonau Masnach Cymru wedi crebachu'n anghymesur a llawer ohonynt wedi colli llawer iawn o'u staff. Mewn ymateb, buom yn defnyddio mwy o wybodaeth i flaenoriaethu a chanolbwyntio ein hymdrechion lle cânt yr effaith fwyaf, a hynny'n aml mewn cydweithrediad, i ymdrin â materion o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol.

Gobeithiwn y bydd y Llawlyfr hwn yn fodd ichi herio'n gadarnhaol yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal chi. Rydym yn siŵr y bydd eich Uwch Reolwr Safonau Masnach yn barod iawn i drafod unrhyw faterion perthnasol gyda chi.

**Dave Riley**
Cadeirydd Cyfredol WHOTS



Tud. 19

# CYFLWYNIAD I'R GWASANAETHAU SAFONAU MASNACH

Cyflenwir gwasanaethau Safonau Masnach gan bob un o'r cynghorau ledled Cymru. A hwythau'n mynd i'r afael â heriau cynildeb ers cyfnod maith, mae'r gwasanaethau hyn bellach yn cael eu darparu mewn amryw ffyrdd – o gyfuniad o dimau "mewnol" unigol, i gyflenwi mewn partneriaeth â chymdogion eraill mewn modelau gwasanaethau a rennir. Serch hynny, sut bynnag y maent wedi'u strwythuro, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn cyflenwi ystod eang o faterion craidd cyffredin. Mae'r rhan fwyaf yn rhan o Gyfarwyddiaeth fwy o faint, fel "Diogelu'r Cyhoedd", neu "Gwasanaethau Rheoleiddio", ochr yn ochr â disgyblaethau eraill fel Iechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu a Chynllunio.

Er bod y rhan fwyaf o ddyletswyddau Safonau Masnach yn faterion "a gedwir yn ôl" sy'n perthyn i Lywodraeth y DU, mae rhai meysydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys materion Bwyd, Amaethyddiaeth ac Iechyd Anifeiliaid.

## CYFRANIAD SAFONAU MASNACH AT GYFLENWI CYNLLUNIAU CYMUNEDOL LLEOL

Mae gwaith rheolaidd Safonau Masnach wedi cyfrannu erioed at themâu allweddol Cynlluniau Strategol Awdurdodau Lleol (adfywio'r economi ac iechyd a lles) drwy gefnogi busnesau cyfrifol a diogelu defnyddwyr. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod unrhyw gorff cyhoeddus yn bodloni anghenion y presennol heb gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol, yn agor y drws i gyfraniad mwy byth. Bydd rheoleiddio busnesau mewn modd sensitif a diogelu defnyddwyr rhag arferion masnachu twyllodrus a throseddau ar stepen y drws yn helpu i gyrraedd o leiaf y tri cyntaf o saith nod y Ddeddf, sef "Cymru lewyrchus", "Cymru gydnerth" a "Chymru iachach"

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno egwyddorion llywodraethu drwy bum ffordd o weithio - **sef integreiddio, cydweithio, y tymor hir** (wedi'i gydbwyso â'r tymor byr), **cynnwys** (cymunedau) ac **atal** (problemau pellach). Mae Gwasanaethau Safonau Masnach, a gefnogir gan Benaethiaid Safonau Masnach Cymru, yn gweithio fel hyn ers degawdau. Mae ganddynt fecanweithiau aeddfed a sicr ar gyfer cydlynu cenedlaethol rhwng Awdurdodau Lleol a phartneriaid allanol i wneud y mwyaf o'u heffaith, ac maent mewn sefyllfa dda i helpu i wireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn lleol ac yn genedlaethol.

Soniwyd am "feysydd craidd" gwaith Safonau Masnach. Yn fyr, gellir trefnu'r rhain o dan benawdau bras Masnachu Teg, Mesureg (Pwysau a Mesurau), Bwyd a Safonau Amaethyddol, Diogelwch Cynnyrch, ac Ymyriad Defnyddwyr. Mae'r enghreifftiau canlynol yn fodd ymarferol o egluro rhywfaint o'r gwaith sy'n perthyn i'r grwpiau hynny:-

- O dan **Fasnachu Teg**, mae swyddogion yn cynghori busnesau ar gydymffurfio â deddfau gwarchod defnyddwyr ac yn eu gwarchod yn erbyn cystadleuaeth annheg gan y rheini sy'n elwa drwy weithgarwch anghyfreithlon
- O dan **Bwysau a Mesurau**, gallai swyddogion fod yn profi cywirdeb cloriannau meddygol meddygfeydd teulu
- O dan **Fwyd ac ati**, gallai swyddogion fod yn cymryd samplau o fwydydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u disgrifiad, neu i fodloni safonau penodedig;
- O dan **Ddiogelwch Cynnyrch**, gallai swyddogion gyd-drafod â busnesau i alw'n ôl nwyddau peryglus;
- O dan **Ymyriad Defnyddwyr**, gallai swyddogion geisio camau cyfreithiol i fabwysiadu gwell arfer gan fusnesau sy'n cynhyrchu nifer o gwynion gan ddefnyddwyr;

Prin y mae'r enghreifftiau hyn yn crafu wyneb proffesiwn sydd mor amrywiol ei ddyletswyddau.

Er bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol yn bennaf, mae masnachu anghyfreithlon yn mynd y tu hwnt i ffiniau cyngor, ac mae weithiau'n hanfodol gweithio ar draws ffiniau. Gwneir hyn yn gydweithredol. I ategu'r cyflenwi lleol, sefydlwyd rhai timau Cymru arbennig i fynd i'r afael â rhai meysydd trosedd arbenigol – sef benthyca arian yn anghyfreithlon, a sgamiau helaeth. Ariennir y timau arbenigol hyn drwy'r Llywodraeth ganolog.

Defnyddir amrywiaeth o foddau i sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â chyfraith Safonau Masnach. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau arolygu, cyngor ac addysg, arolygon, samplu a phrofi. Pan fydd dull amlasiantaeth yn ofynnol, mae'n gyffredin i'r Safonau Masnach weithio ochr yn ochr â phartneriaid fel yr heddlu, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gwasanaethau cyngor eraill, ac asiantaethau gwarchod brand, i enwi ond ychydig.

# SUT MAE BLAENORIAETHAU SAFONAU MASNACH YN CAEL EU PENDERFYNU

Mae llawer o waith y Safonau Masnach yn cael ei wneud oherwydd dyletswydd orfodi gyfreithiol statudol. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hon ag angen i gyfeirio adnoddau at feysydd mwy bygythiol. Felly, ar y cyfan, bydd cyflenwi gwasanaeth yn cyfaddawdu bodloni dyletswyddau statudol, gan ymateb i feysydd angen er mwyn bod mor effeithiol â phosibl.

Mae WHOTS yn cydnabod y bydd gan wasanaethau lleol bob amser flaenoriaethau lleol, a disgwylir cynnwys y rhain mewn unrhyw gynlluniau gwasanaeth lleol.
Ni fydd dim a wna WHOTS yn ymyrryd â chyflenwi lleol na blaenoriaethau lleol.

Fodd bynnag, mae WHOTS yn edrych ar ddarlun cenedlaethol Cymru ac yn cynnal asesiadau blynyddol o'r maes i nodi ymhle ddylai ei flaenoriaethau fod a beth sydd bwysicaf. Mae'r asesiad hwn yn rhan hanfodol o arddel dull a arweinir gan wybodaeth, ac mae'n mynd ymlaen i ddylanwadu ar ddatblygu Strategaeth Reoli flynyddol. Mae'r strategaeth hon yn nodi gwaith a fydd yn cael ei wneud, ac ar gyfer 2018/19 mae wedi grwpio'r gwaith yn feysydd thema, fel a ganlyn:-

- Gwella iechyd
- Diogelu defnyddwyr sy'n agored i niwed
- Gwarchod uniondeb y gadwyn fwyd
- Mynd i'r afael ag arferion masnachu twyllodrus
- Cefnogi busnesau cyfrifol

Wrth reswm, dim ond penawdau o dan thema fras yw'r uchod, a bydd amrywiaeth o ffyrdd o fynd i'r afael â'r themâu'n gyfannol. I ddarlunio'r pwynt hwn, rydym wedi cynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos go iawn dros y tudalennau nesaf.

# THEMA 1: GWELLA IECHYD

Mae'n siŵr nad gwella iechyd mo'r peth cyntaf y byddai aelodau'n ei gysylltu â Safonau Masnach. Fodd bynnag, bu'r maes hwn o ddylanwad yn tyfu ers blynyddoedd. Ac nid yw wir yn golygu mynd ati'n rhagweithiol i wella iechyd, ond yn hytrach chwalu bygythion i iechyd, efallai o ganlyniad i gael nwyddau anniogel oddi ar y farchnad – neu erlyn am dorri deddfau diogelwch.

O ystyried bod iechyd yn cwmpasu ffactorau meddyliol yn ogystal â rhai corfforol, mae Safonau Masnach hefyd yn helpu pobl a fu efallai dan straen yn sgil bod yn destun sgâm, drwy waredu unrhyw fygythiad pellach neu gymryd camau cyfreithiol. Ceir isod rai enghreifftiau o Safonau Masnach ar waith ynghylch ymyriadau cysylltiedig ag iechyd.

## SIOPWR "CYFFURIAU PENFEDDWOL CYFREITHLON" YN TARO'R GWAELOD

*Bu **Safonau Masnach Abertawe** a **Heddlu De Cymru** yn cynnal nifer o ymgyrchoedd yn erbyn gwerthwr "cyffuriau penfeddwol cyfreithlon" fel y'u gelwir, gan arwain at ei garcharu.*

*Roedd rhai o'r cynhyrchion yn cynnwys cyffuriau Dosbarth B a oedd, dros amser, yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn peryglu bywydau'r bobl a oedd yn cymryd y cyffuriau. Er bod y gwerthwr wedi cyfaddef iddo elwa'n sylweddol yn ariannol, cafodd ergyd pan gafodd ei ryddhau o'r carchar pan orchmynnwyd iddo dalu'n ôl mwy na £120,000 o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.*

*Mae cyffuriau penfeddwol cyfreithlon yn cael eu cynnwys bellach mewn rheoliadau newydd o'r enw Rheoliadau Sylweddau Seicoweithredol Newydd 2016.*






Tud. 23

## CYNHYRCHION DEINTYDDIAETH GOSMETIG YN LLAI NA DISGLAIR

*Bu cwmni'n gwerthu cynhyrchion gwynnu dannedd yn y Sioe Frenhinol, a chanfuwyd eu bod yn cynnwys gwerth 110 gwaith y terfyn cyfreithiol o hydrogen perocsid, gan beryglu iechyd felly.*

*Eto ym* **Mhowys***, bu swyddogion yn monitro gwerthiannau ar-lein cynhyrchion gwynnu dannedd gan arwain at ddyn yn delio mewn cynhyrchion anniogel. Yn 2016, anfonwyd pryniant prawf o'i gyfrif Ebay i'w ddadansoddi, a chanfuwyd ei*






*fod yn cynnwys gwerth 58 gwaith y terfyn cyfreithiol o hydrogen perocsid. Cafodd ei erlyn a gorchmynnwyd bod yr holl eitemau a atafaelwyd yn cael eu dinistrio. Cafodd y gwerthwr lleol ddirwy o £4000.*

*Arweiniodd y mater hwn at 3 blynedd o ymchwiliad gan* **Safonau Masnach Powys** *i droseddoldeb teulu o Swydd Gaer. Datgelodd y mater arferion masnachu annheg a thwyllodrus a oedd yn rhychwantu nifer o awdurdodau lleol, a hynny'n waeth am fod y gwerthwr yn gweithredu o dan amrywiaeth o wahanol enwau. Bu swyddogion yn gallu adnabod 30 o ddioddefwyr ledled y DU. Rhoddwyd dedfrydau o garchar yn y treial yn Llys y Goron yn 2016 a hefyd gwaharddwyd tri aelod o'r teulu rhag bod yn gyfarwyddwyr cwmni.*

Tud. 24

## GALW AR Y FYDDIN I HELPU I GODI TÂN GWYLLT PERYGLUS

*Pan aeth Swyddogion o'r **Cydwasanaethau Rheoleiddio** i archwilio busnes ym Mhenarth yn 2016, daethant o hyd i lawer iawn o dân gwyllt ffrwydrol wedi'u storio'n anaddas ar lawr y siop. Canfuwyd eu bod yn llaith, a heb eu gwahanu oddi wrth ddeunyddiau fflamadwy – gan achosi perygl felly.*

*Am fod cynifer wedi'u canfod, bu'n rhaid i'r swyddogion alw ar y Fyddin i helpu i glirio'r safle'n ddiogel! Cafodd y perchenogion eu herlyn a chawsant ddirwy o £4000, gan gynnwys costau. Mae storio ffrwydron yn ddiogel yn rhan allweddol o waith Safonau Masnach.*







Yn ogystal ag enghreifftiau fel yr uchod, mae Safonau Masnach mewn sefyllfa dda i wneud gwaith sy'n berthnasol i strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n ganolog i iechyd y genedl, a hwnnw ar ei amlycaf yn y canlynol:-

- Mynd i'r afael â gwerthu tybaco, alcohol a thoddyddion i bobl dan oed;
- Sicrhau cydymffurfio â deddfau ar arddangos, labelu a chyflwyno tybaco;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn rhan o "Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tybaco Anghyfreithlon" a gyfansoddwyd yn ddiweddar;

# THEMA 2: DIOGELU DEFNYDDWYR SY'N AGORED I NIWED

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cyfrifoldeb statudol mewn perthynas â darparu gofal a chymorth i'r rheini sy'n agored i niwed. Mae Safonau Masnach yn chwarae rhan allweddol mewn cyflenwi cyfrifoldebau Diogelu Awdurdodau Lleol, ac mae hwn yn bwnc llosg gwleidyddol ar draws lawer o wasanaethau cyngor. Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth ddiffinio person fel un "sy'n agored i niwed"; serch hynny, yn sicr, daw Safonau Masnach ar draws pobl felly mewn sefyllfaoedd pob dydd, a hwythau wedi cael profiad o gam-drin ariannol neu fathau eraill o gamdriniaeth, neu efallai'n agored i brofiad felly, o ganlyniad i gael eu targedu gan sgamiau a throseddau ar stepen eu drws, er enghraifft.

Felly mae gwaith Safonau Masnach yn gyfuniad o fesurau rhagweithiol ac amddiffynnol i wneud pobl yn llai agored i niwed, neu ymatebion i helpu defnyddwyr sydd efallai wedi dioddef yn barod. Mae'r maes gwaith hwn mor bwysig nes bod pecyn cymorth i swyddogion ar y gweill i sicrhau y defnyddir dull cyfannol wrth ymdrin â materion diogelu. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o waith felly.

## HELPU DIODDEFWYR SGAMIAU I YMLADD YN ÔL BELLACH YN NODWEDD ALLWEDDOL AR WAITH SAFONAU MASNACH

*Ers nifer o flynyddoedd, mae tîm sgamiau* ***Safonau Masnach Cenedlaethol*** *ar waith, a ariennir drwy Lywodraeth ganolog. Adnodd yw hwn i'r DU sy'n gweithredu fel asiantaeth arweiniol strategol ar sgamiau Safonau Masnach.*

*Mae ymdrechion y tîm wedi agor y drws i filoedd o ddioddefwyr sgâm hysbys ledled y DU, a chyfeiriwyd y bobl hyn at yr Awdurdodau Safonau Masnach priodol fel y gallant gymryd camau lleol i addysgu'r dioddefwyr a chryfhau eu gallu i wrthsefyll unrhyw fygythion pellach. Mae holl Awdurdodau Safonau Masnach Cymru wedi ymrwymo i gyfranogi yn y fenter hon a hyd yma yng Nghymru:*





- *Nodwyd dros 1000 o ddioddefwyr sgamiau*
- *Cyfrifwyd amcangyfrif o niwed y sgamiau sef £1.05m*
- *Roedd oedrannau dioddefwyr yn amrywio rhwng 30 a 98, a'r oedran cyfartalog oedd 78. Mae'r oedran cyfartalog hwn yn unol â phroffil cenedlaethol dioddefwr sgam nodweddiadol*
- *Mae'r amrywiaeth o ganlyniadau llwyddiannus yn cynnwys lleihau post sgam, atgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol oedolion, hybu ymwybyddiaeth am fygythion sgam a chadarnhad fod rhai pobl yn teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain.*

## MENTER "WASP" YN HELPU I FRATHU SGAMIAU CYMRU'N ÔL

*Mae gwasanaethau Safonau Masnach Cymru yn bartneriaid gweithgar ym mhartneriaeth **"Cymru yn erbyn sgamiau" (WASP)**, sy'n hyrwyddo anghenion pobl sy'n agored i niwed ledled Cymru ac sy'n ceisio gwneud Cymru'n lle mwy anghyfeillgar i'r rheini a fyddai'n sgamio pobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed.*

wasp
Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau
Wales Against Scams Partnership




*Mae'r bartneriaeth, a sbardunwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, yn dod ynghyd ag asiantaethau allweddol fel y gallant ddylanwadu ar newid mewn meysydd lle mae sgamiau ar waith ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ar stepen y drws, dros y ffôn, drwy'r post ac ar-lein. O'u rhan fwy, mae Safonau Masnach ledled Cymru yn cynnal ymchwiliadau ac yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed sy'n dioddef twyll felly; hefyd, mae Dadansoddwr Gwybodaeth Rhanbarthol Cymru (Safonau Masnach) yn casglu gwybodaeth am y prif "droseddwyr" ledled Cymru.*

## CIPLUN O GAMAU GWEITHREDU LEDLED CYMRU

*Yn **Sir Ddinbych**, mae swyddogion yn gweithredu dull amlhaenog sy'n cynnwys:*

- *Cofrestru Cynghorwyr yn Hyrwyddwyr Sgamiau ("Sgam-genhadon");*
- *Cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflenwi hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff;*
- *Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant "Cyfaill Dementia";*

***Mae Castell-nedd Port Talbot** wedi cyflenwi sesiynau ymwybyddiaeth am ddiogelu gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu;*

*Mae gan Safonau Masnach **Sir Benfro** gyfradd ymateb o 100% i atgyfeiriadau dioddefwyr sgâm, a buont ynghlwm wrth ddychwelyd arian i ddioddefwyr;*

*Mae **RCT** wedi buddsoddi mewn 100 o unedau "Truecall" i'w gosod yng nghartrefi defnyddwyr sy'n agored i niwed. Mae gan y system hon opsiynau adnabod galwyr a rhwystro galwadau i gadw pobl yn fwy diogel rhag sgamiau.*



## PROTOCOL BANCIO'N CAEL EI GYFLWYNO FESUL DIPYN LEDLED ARDAL HEDDLU DYFED-POWYS

*Mae pedwar Awdurdod Safonau Masnach* ***Sir Benfro, Ceredigion, Powys a Sir Caerfyrddin*** *wedi ymuno â'u* ***Heddlu i gyflwyno*** *fesul dipyn* ***"Y Protocol Bancio,"*** *sef mesur a fwriadwyd i gynnwys Banciau'r Stryd Fawr yn y frwydr yn erbyn twyll defnyddwyr, boed ar stepen eu drws neu drwy farchnata torfol.*

*Mae'n gweithio ar y sail bod canghennau banc yn cael eu haddysgu i adnabod arwyddion gweithgarwch anarferol gan gwsmer - fel tynnu symiau anarferol o uchel, arwyddion o orfodaeth ac ati, a allai fod yn briodoladwy i dalu masnachwr twyllodrus. Cydnabuwyd bod rhai pobl sy'n agored i niwed wedi cyflogi galwyr digroeso i wneud gwaith, dim ond i gael ansawdd gwael iawn, codi tâl gormodol o uchel, ac yna cael eu hebrwng i'w banc i dynnu'r taliad. Nod y protocol hwn yw lladd hyn yn yr egin, drwy rybuddio'r Heddlu yn y lle cyntaf pan nodir ymddygiad afreolaidd gan gwsmer.*

*Mae awdurdodau eraill ledled Cymru'n debygol o fod yn dilyn trywydd tebyg i ddiogelu eu dinasyddion hwy sy'n agored i niwed.*






Nid yw'n anodd deall y bydd ymdrechion fel yr uchod i frwydro sgamiau hefyd yn cyfrannu at yr amcanion "Gwella Iechyd" ar gyfer 2017/18. Gall sgamiau achosi llawer iawn o drallod i'r dioddefwyr, gan arwain at salwch weithiau.

Os gellir lleddfu hyn drwy well addysg i ddefnyddwyr neu ymyriad llwyddiannus, bydd hyn yn siŵr o sicrhau budd iechyd.

# THEMA 3: GWARCHOD UNIONDEB Y GADWYN FWYD

Roedd sgandal y cig ceffyl yn wir yn crisialu'r hyn a olygwn wrth "uniondeb y gadwyn fwyd." Pan fu rhai cyflenwyr diegwyddor yn darparu cig ceffyl yn fwriadol, a heb ei ddatgan, yn lle cig eidion i weithgynhyrchwyr bwyd mawr ac adnabyddus, achoswyd diffyg ffydd helaeth yn y diwydiant bwyd er gwaethaf y broses ddrud o dynnu cynnyrch yn ôl pan wnaethpwyd y sgandal yn gyhoeddus. Nod y Safonau Masnach yw gwarchod yr uniondeb hwnnw drwy sicrhau bod bwyd yn cael ei ddisgrifio a'i labelu'n briodol, ei fod yn ddiogel i'w fwyta, a'i fod yn bodloni unrhyw safonau perthnasol – fel cynnwys cig neu bysgod lleiaf ar gyfer rhai bwydydd. Drwy wneud hyn, magir ffydd yn y farchnad a'r defnyddiwr. Mae'r enghreifftiau canlynol yn amlygu gwaith pwysig gorfodi Safonau Bwyd ledled Cymru.

## CYMRU MEWN DULL BLAENLLAW NEWYDD I SICRHAU ARCHWILIO BWYD ANIFEILIAID

*Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd y system archwilio ffermydd ar gyfer cydymffurfio â rheolau Bwyd Anifeiliaid mewn perygl o ddymchwel, gan wneud y diwydiant yn agored i risg clefyd heintus, fel y profwyd gan yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001. Costiodd hyn £9bn i economi'r DU a dirwasgodd y farchnad allforio cig Prydeinig am flynyddoedd i ddod.*

*Cydnabu WHOTS yr anghysondeb gwasanaeth a gyflenwyd ledled Cymru, gan gynnig dull newydd o blismona'r sector bwyd anifeiliaid drwy ddatblygu llywodraethu rhanbarthol.*

*Gwnaethpwyd y dull newydd hwn yn bosibl drwy fynd ag arian o'r Grant Cynnal Refeniw a'i ailddyrannu drwy'r **Asiantaeth Safonau Bwyd** i gyrraedd y pwynt cyflenwi.*

*Mae archwiliadau o'r math hwn yn sail i athroniaeth "o'r fferm i'r fforc". Er enghraifft, dylanwadir ar ddiogelwch stecen defnyddiwr gan les yr anifail cyn ei ladd, ac yn enwedig diogelwch ac ansawdd y bwyd a gafodd yr anifail yn ystod ei oes. Gallai unrhyw gynhwysion annymunol neu niweidiol mewn bwyd amlygu eu hunain yn y cynnyrch bwyd a brynir gan ddefnyddwyr yn y pen draw.*





## MYND I'R AFAEL Â'R BROBLEM ALERGEN YN ABERTAWE

*Tua diwedd 2014, cyflwynodd yr* ***Asiantaeth Safonau Bwyd*** *reolau i sicrhau bod rhaid i fwytai roi gwybod am unrhyw gynhwysion alergenig a ddefnyddiwyd mewn unrhyw fwyd a gyflenwyd ganddynt.*

*Byddai hyn yn sicrhau na fyddai defnyddwyr yn cael eu peryglu pe byddent yn sensitif i alergenau penodol. Fodd bynnag, ni ddilynwyd y rheolau hyn gan fwyty yn Abertawe; er i gwsmer ofyn i'r staff sicrhau bod pryd bwyd "heb glwten", darparwyd pryd bwyd a oedd yn cynnwys dros 80 gwaith y lefelau glwten derbyniol. Roedd hyn yn dilyn cwyn gynharach gan ddefnyddiwr, a'r prynwr wedi bod yn sâl o ganlyniad.*

*Erlynodd* ***Safonau Masnach Abertawe*** *y bwyty yn 2017, a chosbwyd y perchennog dros £2000.*

## CAERFFILI'N TACLO'R RHWYSTR IAITH GYDA DULL ARLOESOL O ROI CYNGOR BUSNES

*Ers cyflwyno'r gyfraith am ddarparu gwybodaeth am alergenau yn 2014, aeth* ***Safonau Masnach Caerffili*** *yn ddigidol i helpu busnesau i gydymffurfio.*

*Maent wedi datblygu adnodd amlieithog ar alergenau sy'n cael ei gyn-lwytho ar gyfrifiaduron llechen a'i ddefnyddio'n offeryn addysgol yn ystod arolygiadau bwyd. Mae llawer o faterion alergen posibl yn codi mewn siopau prydau parod a bwytai, a bydd croestoriad nodweddiadol o'r rhain yn cael eu gweithredu gan bobl o amryw genedligrwydd.*

*Bydd yr adnodd hwn yn mynd i'r afael â mwyafrif yr ieithoedd y daw Safonau Masnach ar eu traws.*




Tud. 30

## DULL RHAGWEITHIOL YN TALU FFORDD WRTH SICRHAU CYLLID IECHYD ANIFEILIAID

*Mae gorfodi deddfwriaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid yn bwysig iawn wrth atal a rheoli clefyd.*

*Mae cyfrifoldeb yn perthyn i gynghorau unigol, ac fe'i rhannir rhwng gwasanaethau Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd ledled Cymru. Fodd bynnag, yn dradoddiadol, Safonau Masnach sydd wedi arwain y gwaith o gyflenwi strategaeth amlinellol i Gymru, a chysylltu â Llywodraeth Cymru ar y fframwaith rheoli. Nifer o flynyddoedd yn ôl, roedd cyflenwi'r fframwaith o dan fygythiad difrifol oherwydd darfod cyllid Llywodraeth Cymru.*

*I wrthsefyll hyn, bu* ***WHOTS*** *yn gweithio gyda* ***Llywodraeth Cymru*** *i archwilio dull newydd o ariannu a chyflenwi'r gwasanaeth. Canlyniad hyn oedd creu cynllun cyflenwi a olygai y byddai cynghorau Cymru'n gallu gwneud gwaith uwchlaw eu cyfrifoldebau statudol, a chael cyllid addas. Mae'r cynllun hwn yn bodoli ers 2016, a'r rhaglen waith yn cael ei rheoli gan WHOTS ar ran holl awdurdodau Cymru. Er ei bod yn ddyddiau cynnar arno, mae'r cynllun hwn wedi dwyn nifer o fuddion yn barod, fel:*

- *Perthynas waith agosach â Llywodraeth Cymru;*
- *Cynnydd mewn archwiliadau o farchnadoedd, lladd-dai a chanolfannau casglu;*
- *Adnabod tyddynwyr, bridwyr cŵn ac arddangoswyr anifeiliaid symudol yn well;*

*Wrth i'r cynllun hwn fwrw ei wreiddiau, disgwyliwn sicrhau mwy o fuddion byth yn y blynyddoedd i ddod. Ni all hyn ond talu ffordd o ran uniondeb cyffredinol y gadwyn fwyd.*



# THEMA 4: MYND I'R AFAEL AG ARFERION MASNACHU TWYLLODRUS

Pe byddai gofyn I chi grynhoi'r hyn a wna Safonau Masnach o ddydd i ddydd, mae'n siŵr y dywedech mai mynd i'r afael ag arferion twyllodrus fyddai hynny, a byddech yn gywir. Mae Masnachu Teg yn sail i economi iachus, a bydd unrhyw arferion sy'n tanseilio'r egwyddor honno yn effeithio ar ddefnyddwyr, ond hefyd ar fusnesau cyfrifol.

A dweud y gwir, mae cynifer o wahanol ffyrdd y mae Safonau Masnach yn cyfrannu at y thema hon. Yn wir, ni fesurir llwyddiant o ran erlyn troseddwyr yn unig. Gellir cyflawni llawer drwy ddulliau eraill fel addysg, rhoi rhybuddion, ceisio Sicrwydd ffurfiol, aflonyddu syml ar arferion twyllodrus, atafaelu nwyddau ac asedau, a defnyddio'r Ddeddf Enillion Troseddau (POCA) yn graff i roi gwir ergyd i dwyllwyr.

Mae hyn oll yn golygu bod rhaid i Safonau Masnach fod ar flaen y gad o ran arloesiadau a thueddiadau, i wybod ymhle gall twyllwyr wneud arian. Dyma pam yr ydym yn cyflogi Dadansoddwr Gwybodaeth Rhanbarthol ac yn treulio amser yn monitro sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o Safonau Masnach ar waith ledled Cymru.

## CAU'N DYNN AR FLYCHAU PEN SET DELEDU ANGHYFREITHLON

*Er eu bod yn gyfreithlon ynddynt eu hunain, canfuwyd bod y dyfeisiau hyn, a elwir weithiau'n flychau "Kodi", yn cael eu gwneud yn anghyfreithlon pan gânt eu cyn-lwytho â meddalwedd, gan alluogi defnyddwyr i ffrydio sianeli tanysgrifio fel SKY, ffilmiau dynwaredol, a digwyddiadau chwaraeon y talir amdanynt am ddim. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn dramgwydd troseddol gwylio deunydd na fyddai gan bobl hawl iddo.*

*Yn **Sir Gaerfyrddin**, cafodd gwarantau eu cyflawni yn rhan o'r gwaharddiad, a chanfuwyd bod un gwerthwr wedi gwerthu gwerth tua £15000 o flychau dros 9 mis, gan arddangos natur enillfawr y drosedd.*

*Ac un peth arall, yn **Sir Fynwy** darganfuwyd bod maleiswedd wedi effeithio ar rai blychau efallai, gan alluogi sgamwyr i ddwyn manylion personol i gyflawni twyll. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bydd defnyddwyr fel arfer yn defnyddio manylion personol wrth sefydlu'r blwch.*



## ARTISTIAID POBLOGAIDD YN FFYNHONNELL O INCWM ANGHYFREITHLON O HYD

*Mae twyllwyr wedi hen sylweddoli'r cyfle i ennill yn anghyfreithlon yn sgil poblogrwydd difyrwyr ac artistiaid.*

*Mae cael lleoliad cerddorol mawr mewn ardal cyngor fel arfer yn creu galw am waith gorfodi gan y gwasanaeth Safonau Masnach lleol. Yng* ***Nghaerdydd*** *mae hyn yn enwedig yn wir, am fod artistiaid o bedwar ban yn perfformio yn Stadiwm Principality ac Arena Ryngwladol Caerdydd.*

*Ym mis Mehefin 2017, bu swyddogion o'r* ***Cydwasanaethau Rheoleiddio*** *a* ***Heddlu De Cymru*** *yn atafaelu siwmperi a chrysau T Justin Bieber, gan fynegi bod yr arfer yn "gam-fanteisio dideimlad ar gefnogwyr", oherwydd bydd yr eitemau yn israddol eu hansawdd. Roedd hyn yn dilyn atafaelu cynharach yng nghyngerdd Coldplay, ac mae cynlluniau'n parhau i blismona ymhellach gigs eraill uchel eu proffil.*








## PROBLEM OESOL FFUGIO YN GWRTHOD DIFLANNU

*Bu'n rhyfel athreuliol maith yn erbyn ffugio i'r Safonau Masnach, ac effeithir ar bob Gwasanaeth Awdurdod mewn rhyw ffordd.*

*Rhaid pwysleisio nad trosedd "heb ddioddefwyr" mo ffugio. Prin yw gorbenion y bobl sy'n gwneud eu harian ohono, os o gwbl, ac mae'n cynrychioli cystadleuaeth anghyfreithlon, annheg i fusnesau dilys.*

*Mae'r defnyddwyr hefyd yn cael cynhyrchion israddol, sydd weithiau'n anniogel. Mae gan ein gwefan adran am eitemau newyddion o bob cwr o Gymru, gan grynhoi natur gyffredin a chwmpas ffugio, fel:*

"Gwerthwr gemwaith ffug yn cael ei erlyn"

***Safonau Masnach Merthyr***

"Dyn o Runcorn yn gwerthu citiau pêl-droed ffug o'i dŷ gwyliau yng Nghymru"

***Safonau Masnach Gwynedd***

"Gwerthwr sigaréts ffug, peryglus yn cael ei ddedfrydu i bedwar mis o garchar"

***Safonau Masnach Conwy***

"Ffugiwr dillad ac oriorau yn cael 12 mis o orchymyn cymunedol"

***Safonau Masnach Powys***

"Gwerthwr sigaréts ffug Caerffili yn osgoi carchar"

***Safonau Masnach Caerffili***

*I gael gwybod rhagor am y rhain ac eitemau newyddion eraill ewch i*
***www.tradingstandardswales.org.uk***

Tud. 34

# THEMA 5: CEFNOGI BUSNESAU CYFRIFOL

Nid yw Safonau Masnach yn gwrthwynebu busnes. Nid oes arnom eisiau i fusnesau fethu â chydymffurfio â'r gyfraith er mwyn inni eu galw i gyfrif a'u cosbi. Rydym yn realistig am anghenion busnesau cyfrifol, ac am roi cyfleoedd iddynt gael trefn ar bethau. Rydym yn cydnabod gwerth busnesau i'r economi leol ac rydym am gefnogi ffyniant a thwf yr economi.

Rydym yn hyderus yn ein gwaith cefnogi busnesau, ond rhaid cydbwyso hyn â'r angen i weithredu lle mae angen, a hefyd bod yn ddigyfaddawd gyda masnachwyr twyllodrus. Tua dechrau 2017, cyhoeddom Ddatganiad Sefyllfa am bwnc ffyniant economaidd ac ati, i gyd-daro â digwyddiad Rheoleiddio yn y Senedd. Gellir gweld hwn ar ein gwefan yn **www.tradingstandardswales.org.uk**. Mae'r datganiad sefyllfa'n amlinellu ein rôl yn cyfrannu at yr uchelgeisiau cymorth busnes, sy'n cynnwys y canlynol:

- Hyrwyddo (ac weithiau plismona) amryw **gynlluniau Sicrhau Masnachwyr**. Mae'r rhain yn helpu i godi safonau ymhlith busnesau, a hefyd rhoi mantais farchnata iddynt. Maent hefyd yn dileu rhywfaint o'r risg i ddefnyddwyr wrth ddewis masnachwr cyfrifol;

- Defnyddio gwybodaeth ranbarthol i amlygu'r **busnesau troseddol brig** ledled Cymru, fel y gellir cyfeirio adnoddau at y mannau problemus hynny, a mynd i'r afael â'u bygythiad parhaus;

- Cyfranogi mewn cynllun o'r enw **"Awdurdod Sylfaenol."** Mae hyn yn galluogi partneriaethau i gael eu ffurfio rhwng busnesau ac awdurdodau lleol, fel bod un ffynhonnell o gyngor ac arweiniad ar gael iddynt. Mae hyn yn helpu busnesau i reoli eu perthynas ag awdurdodau lleol ledled y DU;

- Rhoi **cymorth busnes** gweithgar yn lleol yn bersonol, ynghyd â darparu llwyfan gwe (yn y cyfeiriad gwe uchod) i helpu i dywys busnesau drwy'r ddrysfa gydymffurfio. Mae llawer o'r cyngor ar-lein yn cynnwys taflenni neu ganllawiau sy'n ddwyieithog ac y gellir eu llwytho i lawr;

- Mae gan y rhan fwyaf o Gynghorau Cymru gyngor busnes ar eu tudalennau gwe corfforaethol. Fel rheol, maent wedi cymathu Cynnyrch Cenedlaethol o'r enw **"Cydymaith Busnes,"** ac mae hyn hefyd yn cynnwys canllawiau fideo i fusnesau, mewn rhai achosion;

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos y gwahanol ffyrdd y mae Safonau Masnach yn cefnogi busnesau Cymru.

## NOD I HYBU HYDER PRYNWYR YNG NGOGLEDD CYMRU

*Mae cynllun "masnachwr dibynadwy" a lansiwyd yn wreiddiol yn Lloegr yn cael ei gyflwyno'n raddol fesul dipyn ar draws ardal fwy o faint.*

*Nid **"Prynu â Ffydd"** mo'r unig gynllun o'i fath, ond hwn yw'r un y mae chwe Awdurdod Gogledd Cymru wedi penderfynu ei hyrwyddo ar y cyd. Y chwe Chyngor yw **Wrecsam, Ynys Môn, Sir y Fflint, Conwy, Sir Dinbych a Gwynedd.***

*Darparant i'w defnyddwyr lleol restr o fusnesau lleol a fu'n destun cyfres o archwiliadau manwl gan Safonau Masnach, cyn cael eu cymeradwyo'n aelodau o'r cynllun.*

*Lluniwyd y model cydweithredol hwn mewn ymateb i bryderon ynghylch masnachwyr twyllodrus, ac mae'n sicrhau bod busnesau da a chwsmeriaid craff ar eu hennill.*





## CYNGOR SIR DDINBYCH YN CAEL EI GYDNABOD YN GENEDLAETHOL

*Ym mis Gorffennaf 2017, gwobrwywyd **Adran Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd Sir Ddinbych** am ei dull arloesol o gwtogi ar fân-reolau i'w busnesau.*

*Lluniodd yr Adran, sy'n cynnwys Safonau Masnach, brosiect "Gwell Busnes i Bawb" er mwyn cydlynu ei gwaith rheoleiddio yn well, ac er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyfannol yn ystod ymweliadau.*

*Cynhelir y gwobrau Rheoleiddio gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a Sir Ddinbych oedd yr unig ymgeisydd o Gymru ymhlith 13 a gyrhaeddodd y rownd derfynol. Llwyddodd i gael statws agos i'r brig, yn ogystal â chael ei enwi'n "un i gadw llygad arno."*



## CYNGHORAU'N HEN LAWIAU ERBYN HYN YN CYFLEU NEGESEUON I HELPU BUSNESAU

*Rydym yn cydnabod nad Gwarchod Defnyddwyr yn unig mo diben ein gwaith, a bod busnesau lleol cyfrifol hefyd yn gallu dioddef yn sgil twyllwyr. Felly, os gwyddom am sgâm sy'n cael ei dargedu at fusnesau, gwnawn ein gorau glas i drosglwyddo'r neges. Er bod hyn yn gallu bod ar ffurf datganiadau traddodiadol i'r wasg, rydym hefyd yn gyfarwydd â grym y cyfryngau cymdeithasol, a gallwn ddefnyddio ffrydiau Twitter cynghorau, er enghraifft.*

*Un enghraifft o gysylltiadau cyhoeddus ar waith yn ddiweddar oedd pan glywodd* ***Safonau Masnach Ynys Môn*** *fod eu gwestai a'u sefydliadau gwely a brecwast lleol yn cael ymweliadau bygythiol a honnai fod ynghylch dyledion heb eu talu - a hwythau'n gwybod dim amdanynt. Mewn gwirionedd, nid oedd dim o'r wybodaeth am y dyledion honedig yn gywir.*

*Gan boeni y gallai busnesau gael eu bwlio i dalu, cyhoeddodd Ynys Môn gyngor a gwybodaeth a gwahoddodd fusnesau pryderus i gysylltu. Roedd yn bwysig pwysleisio na fyddai dyledion yn cael eu casglu yn y modd hwn.*



## AWDURDOD SYLFAENOL

*Mae naw Awdurdod yng Nghymru wedi dechrau perthynas Awdurdod Sylfaenol â busnesau lleol. Rhyngddynt, cefnogant dros 30 o fusnesau, gan gynnwys Byrddau Iechyd lleol. Mae* ***Cydwasanaethau Rheoleiddio*** *yn rhoi cyngor sicr i gefnogi nifer o Awdurdodau Sylfaenol Lloegr ar Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.*

*Yr Awdurdodau sy'n cyfranogi yw:* ***Ynys Môn, Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, y Cydwasanaethau Rheoleiddio, a Wrecsam.***

# Y DARLUN CENEDLAETHOL A DARPARU GWERTH YCHWANEGOL

Gŵyr y Safonau Masnach ers amser maith nad oes gan dwyllwyr unrhyw ystyriaeth at ffiniau daearyddol, ac y byddant yn arfer eu twyll ledled Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â throseddu trawsffiniol yn gwbl effeithiol, rydym wedi sefydlu seilwaith gorfodi, gyda chymorth cyllid llywodraeth leol. Ceir timau pwrpasol i arbenigo mewn mathau o dwyll penodol neu feysydd penodol o gyfraith defnyddwyr, ac mae gan y timau hyn gylch gwaith Cymru gyfan. Rhoir gwybod rhagor am y timau hyn isod.

## UNED BENTHYCA ARIAN ANGHYFREITHLON CYMRU (WIMLU)

Mae'r Uned hon yn bodoli ers 2008, ac fe'i rheolir yn lleol gan y **Cydwasanaethau Rheoleiddio (Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr)**. Un tro, byddai benthycwyr arian anghyfreithlon, neu ddidrwydded, yn gweithredu'n ddi-gosb ledled y wlad. Nid yw hyn yn wir mwyach ers dyfodiad yr uned arbenigol. Mae'n gweithredu ar sail gwybodaeth, ac yn ogystal â mynd i'r afael ag arfer y benthyciwr anghyfreithlon, bydd ganddi hefyd ran i'w chwarae mewn cefnogi dioddefwyr.

## TÎM YMCHWILIO RHANBARTHOL CYMRU

Sefydlwyd y tîm hwn yn 2009, o dan yr enw gwreiddiol **Scambusters**. Fe'i rheolir yn lleol gan **Gyngor Dinas Casnewydd**, ac mae ganddo gylch gwaith Cymru gyfan. Mae'n gweithredu ar sail gwybodaeth, gan fod yn gyfrifol am droseddau trawsffiniol sy'n tueddu i gynnwys sgamiau ehangach a masnachu twyllodrus. Ategir y tîm gan Ddadansoddwr Gwybodaeth Rhanbarthol, a fydd yn casglu ac yn archwilio gwybodaeth Cymru gyfan sy'n hysbysu Safonau Masnach am fygythion ac yn dylanwadu ar strategaeth. Bu'r tîm yn gynyddol effeithiol yn dod â masnachwyr twyllodrus mynych gerbron llys, ac yn adfachu enillion troseddau.

## TÎM ASIANTAU TAI SAFONAU MASNACH CENEDLAETHOL

Pan ailstrwythurwyd Maes Defnyddwyr y DU yn 2011, darfu'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT). Roedd hwn yn newid anferth, a bu'n rhaid symud gwaith traddodiadol y Swyddfa Masnachu Teg i rywle arall. Un o'i phrif gyfrifoldebau fu rheoleiddio gwaith Asiantau Tai ledled y DU, a throsglwyddwyd yr agwedd hon i **Gyngor Sir Powys** gyda chymorth gan **Gyngor Sir Ynys Môn**. Mae hwn yn gyfrifoldeb mawr i'w dderbyn, ond bu'n gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol, yn dyst i allu Cymru i gyflawni cyfrifoldebau cenedlaethol.

Mae'n deg dweud bod yr enghreifftiau uchod yn cynrychioli arloesi ar waith, er gellid dadlau eu bod yn ffrwyth anghenraid ar lefel genedlaethol. Mae gwahanol Awdurdodau ledled Cymru yn croesawu arloesi mewn llawer o wahanol ffyrdd, a'r rhain yn ychwanegu gwerth at waith pob dydd y Safonau Masnach. Mae'r canlynol yn enghreifftiau:

## CYNGOR YN CANFOD CARTREF NEWYDD I DDILLAD ANGHYFREITHLON

*Ni all nwyddau ffug a atafaelwyd yn rhan o ymchwiliad gael eu hailgyflenwi'n gyfreithlon yn y DU os oes nodau masnach anghyfreithlon arnynt o hyd. Fodd bynnag, drwy waredu labeli ac enwau brand, gellir ystyried sut i'w defnyddio o'r newydd.*

*Dyma'n union a wnaeth **Safonau Masnach Torfaen**, a thrwy gysylltu â chonfoi cymorth yr Heddlu Cenedlaethol, rhoddodd dros 300 o eitemau o ddillad ffug i helpu prosiectau cymorth yn Affrica. Roedd y llwyth yn cynnwys esgidiau, siwmperi, esgidiau rhedeg a siacedi, ar eu ffordd i bentrefi yn Ghana.*




## SIR BENFRO YN APELIO AT GYDWYBOD BUSNESAU YNGHYLCH E-SIGARÉTS

*Mae rhai pobl yn pryderu ynghylch diffyg unrhyw gyfyngiad ar werthu e-sigaréts i blant a phobl ifanc.*

*Yn **Sir Benfro**, penderfynwyd defnyddio dull gwahanol a chyflwynwyd cynllun "adwerthwr cyfrifol", gan ofyn i fasnachwyr wrthod eu gwerthu i bobl o dan 18.*

*Er bod y cynllun yn gwbl wirfoddol, efallai bydd busnesau cyfrifol yn dymuno cyfranogi wrth i bryderon am e- sigaréts barhau i gylchredeg, tra bydd rhai mathau o reoli cyfreithiol dan ystyriaeth. Credir bod cyfyngu ar argaeledd nwyddau felly yn rhwystro unrhyw broses o normaleiddio eu defnyddio ymhlith ieuenctid.*




# SYLWADAU I GLOI

**Rydym yn ddiolchgar iawn os ydych wedi rhoi o'ch amser i ddarllen cynnwys ein llawlyfr. Credwn ei fod yn cynnwys digon o wybodaeth I chi ddod i adnabod eich gwasanaeth Safonau Masnach yn well, a rhannu'r wybodaeth honno gyda'ch cymunedau.**

**I gael gwybod rhagor am y gwasanaeth, fe'ch gwahoddwn i gysylltu â'ch Uwch Reolwr Safonau Masnach.**

Byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb masnachu annheg, a gwasanaethu ein cynghorau a'n cymunedau yn gyffredinol fel y gwnaethom erioed. Ond er rhybudd, mae gennym un llygad bob amser ar y dyfodol, a byddai'n anghywir credu bod ein proffesiwn wedi goroesi'n ddianaf o ganlyniad i gyni. Yn wir, a ninnau'n wasanaethau bychain, mae'n siŵr ein bod yn teimlo'r straen yn fwy na'r rhan fwyaf. Am y rheswm hwn, gofynnem ichi nodi rhai o'r prif heriau sydd o'n blaenau, fel yr ydym ni'n eu gweld.

- **Ansicrwydd BREXIT, a'r hyn y gallai ei olygu i hawliau defnyddwyr yn y dyfodol a buddiannau busnesau cyfrifol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol am fod cymaint o gyfraith defnyddwyr wedi deillio o Gyfarwyddebau Ewropeaidd;**
- **Ein gallu parhaus i gyflenwi gwasanaethau, o ystyried colli staff profiadol iawn a'r gostyngiad cyfatebol mewn recriwtiaid newydd i'r proffesiwn;**
- **Y diffyg Dangosyddion Perfformiad statudol er mwyn mesur cyfraniad ac effeithiolrwydd gwasanaeth;**




Tud. 40

| ENW'R PWYLLGOR CRAFFU | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
|---|---|
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 11 Hydref 2018 |
| TEITL | Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd Cyngor Gwynedd, 22ain i 26ain o Chwefror 2016. |
| AWDUR | DAFYDD WILLIAMS, PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD |
| AELOD CABINET | Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG |
| PWRPAS | Adrodd y cynnydd wnaed i gyfarch 34 argymhelliad a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn dilyn archwiliad o ddarpariaeth gorfodaeth cyfraith bwyd y Cyngor. |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Asiantaeth Safonau bwyd (ASB) yn cynnal rhaglen o archwiliadau i asesu trefniadau gorfodaeth cyfraith bwyd mewn cynghorau yng Nghymru ar gylch 3 blynedd neu fwy. Mae'r archwiliadau yn canolbwyntio ar holl agweddau'r ddarpariaeth gan gynnwys asesiad o weithdrefnau a pholisïau yn ymwneud a gorfodaeth cyfraith bwyd, perfformiad gwasanaethau yn nhermau cynnal rhaglenni ymyraethau swyddogol fel archwiliadau hylendid bwyd ac archwiliadau safonau bwyd ynghyd ag ansawdd a chywirdeb cofnodion.

1.2 Cynhaliodd yr ASB archwiliad llawn o drefniadau gorfodi cyfraith bwyd Cyngor Gwynedd dros bum diwrnod o'r 22ain o Chwefror i'r 26ain o Chwefror 2016.

1.3 Pwrpas yr ymchwiliad oedd asesu cydymffurfiaeth y Cyngor a'r Safon Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a gafodd ei gyhoeddi gan yr ASB fel rhan o'r cytundeb fframwaith ar rheolau swyddogol bwyd anifeiliaid a bwyd gan lywodraethau lleol.

1.4 Derbyniwyd adroddiad terfynol yr ASB yn dilyn yr archwiliad llawn (22/2/16-26/2/16) ar y 14/2/17. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 34 argymhelliad i'r Cyngor gyfarch ac un gydnabyddiaeth o ymarfer dda.

1.5 Fel rhan o'r broses bu i'r gwasanaeth ddarparu cynllun ac amserlen yn manylu sut byddem yn cyfarch yr argymhellion.

## 2. ADRODDIAD ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR WASANAETHAU GORFODAETH CYFRAITH BWYD CYNGOR GWYNEDD, 22-26/2/16

2.1 Roedd adroddiad yr ASB yn adnabod diffygion / anghenion yn y meysydd canlynol;

- Cynllun Gwasanaeth Blynyddol
- Awdurdodiadau Swyddogion
- Nifer y Swyddogion sydd ar gael i gwblhau'r gwaith.
- Cadw a chynnal cofnodion
- Cynnal ymyraethau yn unol â'r canllawiau yn nhermau nifer ac amlder.
- Manylion yn ymwneud ag adnoddau a chymhariaeth perfformiad
- Cyfathrebu / cysylltu drwy drefn Awdurdodau Cynradd.
- Gweithdrefnau
- Polisi Gorfodaeth

2.2 Fe adroddwyd y cynnydd wnaed i gwrdd â'r argymhellion yn unol ân gynllun i'r Pwyllgor Craffu ar y 10fed o Hydref 2017.

2.3 Nodwyd ar y pryd mae'r prif anhawster ran cwrdd â nifer o'r argymhellion pennaf oedd diffyg adnodd , yn sgil toriadau i'r nifer o staff a gyflogir yng Ngwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd dros y blynyddoedd. Un o'r prif argymhellion hyn ydoedd:

'*Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol ar Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.'*

2.4 Mae oddeutu 2,200 o eiddo bwyd yng Ngwynedd. Maent oll i dderbyn archwiliad /ymyrraeth swyddogol diogelwch bwyd oddi fewn i amserlen sydd wedi ei bennu yn y Cod Cyfraith Bwyd. Mae amlder yr archwiliadau /ymyraethau yn ddibynnol ar gategori risg eiddo sydd yn cael ei sefydlu yn ystod yr archwiliad blaenorol. Ar gyfer hylendid bwyd mae amlder archwiliadau yn amrywio o 6 mis (eiddo risg uchel) i bob tair blynedd (eiddo risg isel). Mae'r un drefn yn bodoli ar gyfer gwaith safonau bwyd.

2.5 Mae nifer yr archwiliadau sy'n ofynnol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn gyda'r amrediad fel arfer rhwng 1500 a 1800.

2.6 Mae'r Gwasanaeth wedi methu cynnal nifer sylweddol o archwiliadau eiddo bwyd oddi fewn amserlen benodedig yn flynyddol ers 2015. Mae hyn wedi codi oherwydd gostyngiad yn y nifer o swyddogion cyflogedig a chynnydd cyfatebol yn y llwyth gwaith . Er enghraifft, yn flaenorol byddai swyddog wedi cwblhau gwaith hylendid bwyd yn unig. Bellach mae'r un swyddog yn cwblhau gwaith yn y maes safonau bwyd, iechyd cyhoeddus ac iechyd a diogelwch. Mae'r sefyllfa yma yn parhau ac yn peri risg sylweddol i'r Cyngor oherwydd:

- Nid yw busnesau yn cael eu harchwilio oddi fewn amserlen benodedig gyda photensial i fwyd / diod a gynhyrchir neu a werthir yn y Sir fod yn peri risg i iechyd.

- Gall achos o wenwyn bwyd difrifol neu dwyll bwyd gael effaith andwyol sylweddol ar y sector Fwyd yng Ngwynedd sydd yn chwarae rhan flaenllaw yn economi'r Sir.
- Nid yw'r Cyngor yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru (fel y rhestrir yn y Cod Ymarfer Bwyd) sydd yn ein gadael yn agored i feirniadaeth / camau pellach bosib.

**3. AIL YMWELIAD YR ASB AR CYNGOR - ASESIAD CYNNYDD 28/2/18**

3.1 Ar yr 28ain o Chwefror 2018 bu i swyddogion yr ASB ail ymweld â Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i asesu os oeddem wedi cwblhau'r cynllun gwella oedd yn seiliedig ar eu 34 argymhelliad gwreiddiol.

3.2 Cafwyd adroddiad ganddynt ym mis Mawrth oedd yn crynhoi ein perfformiad fel a ganlyn:

| **Cyfanswm Argymhellion** | **34** |
|---|---|
| Wedi eu cwblhau | 14 |
| Cynnydd da | 14 |
| Cynnydd Cyfyngedig | 2 |
| Dim gweithrediad | 2 |
| Dyddiad ar gyfer gweithrediad heb ei gyrraedd eto | 2 |
| **Cyfanswm yr argymhellion sydd angen gweithrediad pellach** | **20** |

3.3 Mae tabl yn atodiad 1 o'r adroddiad hwn yn rhestru'r 20 argymhelliad oedd angen gweithrediad pellach ym Mis Chwefror eleni gydag eglurhad o'r cynnydd wnaed ers hynny ar hyn y bwriedir ei gyflawni yn y dyfodol.

**4. CYNNYDD ERS CHWEFROR 2018 A CHYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL**

4.1 Mae'r gwasanaeth eisoes wedi bod yn ystyried sut i fynd i'r afael gydag anhawsterau cyflawni yr uned oherwydd y lleihad mewn staff, yn arbennig mewn perthynas â chwblhau archwiliadau diogelwch bwyd oddi fewn targedau amser. Adnabuwyd ac ail gyfeiriwyd cyllid ar gyfer cyflogi swyddog dros dro am gyfnod o 12 mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 18-19. Penodwyd unigolyn fel swyddog gwarchod y cyhoedd (dros dro) ym mis Mehefin eleni.

4.2 Mae'r unigolyn a benodwyd newydd raddio a bydd angen cyfnod o hyfforddiant pellach (3-4 mis) cyn y gall gynnal ymyraethau diogelwch bwyd swyddogol.

4.3 Ymwelodd Pennaeth yr ASB yng Nghymru a Phrif Weithredwr y Cyngor ar yr 21ain o Fai eleni i drafod perfformiad gorfodaeth cyfraith bwyd y Cyngor gyda ffocws ar gynlluniau darpariaeth gwasanaeth diogelwch bwyd hir dymor. Gwnaeth yr ASB gynghori fod y Gwasanaeth angen o leiaf 2 swydd ychwanegol er mwyn cyflawni gofynion statudol o ran gorfodi cyfraith bwyd. Yn sgil hyn cynhaliwyd adolygiad o lefel adnoddau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, er mwyn ystyried beth oedd ei angen i geisio cwrdd â'r gofynion perthnasol ar draws y meysydd gwaith, gan gynnwys cwrdd â’r diffyg adnodd ar gyfer gwaith gorfodi cyfraith bwyd, ac edrych ar sut oedd posib ariannu’r diffyg.

4.4 Yn mis Gorffennaf 2018, cyflwynwyd adroddiad adolygu lefel adnoddau Gwarchod y Cyhoedd i’r Cabinet. Cafwyd cefnogaeth i’r Adran Amgylchedd ddefnyddio incwm (blynyddol) o £70,000 o’r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, oedd yn flaenorol wedi ei adnabod fel cyfraniad at gynllun arbedion y Cyngor, ar gyfer cyflogi swyddog /ion o’r newydd ar delerau parhaol yng Ngwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

4.5 Bydd y Gwasanaeth yn mynd ati i hysbysebu swydd swyddog gorfodaeth gwarchod y cyhoedd ddechrau Hydref a swydd swyddog gwarchod y cyhoedd diwedd Tachwedd / dechrau Rhagfyr.

## 5. CASGLIAD

5.1 Mae’r Gwasanaeth wedi cymryd camau sylweddol i gwrdd a’r 34 argymhelliad oedd yn deillio o archwiliad llawn yr ASB o ddarpariaeth gorfodaeth cyfraith bwyd y Cyngor ym mis Chwefror 2016.

5.2 Wedi eu hail ymweliad yn Chwefror eleni cafwyd cadarnhad ein bod wedi cwrdd â chyfran o’r argymhellion, ein bod wedi gwneud cynnydd da at gwrdd â chyfran arall ond fod cynnydd cyfyngedig neu ddim cynnydd wedi bod i gwrdd â 4 argymhelliad.

5.3 Roedd cydnabyddiaeth nad oedd, yn unol â rhai o’r argymhellion, adnodd digonol i gwrdd â gofynion gorfodaeth cyfraith bwyd fel y mynnir gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd pwysigrwydd y gwasanaeth o ran y gofynion statudol, natur y gwaith a’r risgiau posib i drigolion Gwynedd a’r Cyngor o beidio cydymffurfio gyda’r gofynion, mae’r Cabinet wedi penderfynu dyrannu fwy o adnodd i’r gwasanaeth ar gyfer y pwrpas hwn.

5.4 Yn sgil adolygiad mae’r Gwasanaeth wedi penderfynu mae’r dull mwyaf priodol o ddefnyddio’r adnodd ydy penodi 2 swyddog ychwanegol. Wedi penodi ac yn dilyn cyfnod o gyfanheddu / hyfforddi disgwylir y bydd hyn yn ein caniatáu, ymhen amser, i gwrdd â’n hoblygiadau gorfodaeth cyfraith bwyd yn unol ar Cytundeb Fframwaith Diogelwch Bwyd Cenedlaethol.

5.5 Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gwblhau'r gwelliannau a nodir yn y cynllun gwella i gwrdd yn llawn a'r 34 argymhelliad gwreiddiol. Oherwydd ôl groniad hanesyddol archwiliadau diogelwch bwyd bydd angen amser i'w cwblhau. Mae 290 o archwiliadau a ddylid fod wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth eleni dal yn ofynnol. Os byddwn yn llwyddiannus yn recriwtio oddi fewn y misoedd nesaf disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau hyd 2021 fan bellaf.

5.6 Mae'r Gwasanaeth yn diweddaru'r ASB o'r cynlluniau ar gyfer cyfarch y diffyg adnodd a hefyd wedi gofyn a oes posib i'r Cyngor gael cefnogaeth ariannol er mwyn helpu i glirio'r ôl-groniad o archwiliadau.

**Atodiad 1.**

**Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd**
**Dyddiad yr Archwiliad: 22 – 26 Chwefror 2016**
**Argymhellion angen gweithrediad pellach wedi Chwefror 2018**

**Allwedd - Barn ASB ar ein hymdrech i gwrdd ag argymhelliad fel yr adroddwyd yn Chwefror 2018**

| | |
|---|---|
| | **Cynnydd Da** |
| | **Cynnydd Cyfyngedig** |
| | **Dim Gweithrediad** |



| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Asesiad Statws ASB Chwefror 18** | **Gwelliannau ers 02/18** | **Camau pellach** |
|---|---|---|---|
| 3.20 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael, a rhoi esboniad dros unrhyw amrywiaethau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1] | **Cynnydd da** | Cynllun 2018-19 wedi ei baratoi yn cynnwys y wybodaeth adnabuwyd oedd angen. | Copi o'r Cynllun wedi ei yrru at yr ASB gyda chais am eu hadborth. Ymateb heb ei dderbyn hyd yma. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.20 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad sy'n seiliedig ar Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo i'r aelod fforwm neu'r uwch swyddog perthnasol. [Y Safon – 3.2] | **Dim gweithrediad** | Trafodaethau wedi bod parthed pwy/ sut ddylid cymeradwyo'r Cynllun. ASB yn argymell unai'r Cyngor , Pennaeth Adran neu Arewinydd y portffolio. | Cais am arweiniad wedi ei gyfeirio at Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor parthed y dull cywir o gymeradwyo'r cynllun dan drefniadau hawliau dirprwyedig y Cyngor. |
| 5.10 (i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, a sicrhau y caiff asesiadau o gymhwysedd swyddogion eu cofnodi. [Y Safon – 5.1] | **Cynnydd da** | Adolygiad o Awdurdodiadau wedi ei gynnal. Rhai newidiadau - Deddfwriaeth wedi eu cynnwys. | Cynnal adolygiad rheolaidd. |
| 5.10 (iii) Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3] | **Dim gweithrediad** | Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) wedi ei phenodi ym mis Mehefin 2018 | Cyllid wedi ei neilltuo ar gyfer cyflogi dau unigolyn ar ail barhaol. |
| 5.10 (iv) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi sydd wedi'u gosod yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4] | **Cynnydd cyfyngedig** | ASB wedi crybwyll y byddent hwy yn darparu cwrs gorfodaeth HACCP yn 2018 -19 . Mae angen i dri swyddog o Wynedd ei gwblhau er mwyn bodloni'r argymhelliad.<br>Nid oes darparwyr eraill wedi eu hadnabod | Hyd yma (Medi 2018) nid oes hyfforddiant perthnasol wedi cael ei gynnig gan unrhyw ddarparwr / ei adnabod.Bydd swydogion yn mynchu cwrs perthnasol wedi i un ddod ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.26 (i) Sicrhau bod ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | **Targed cydymffurfio 1/1/19** | Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (Dros dro) wedi ei phenodi ym Mehefin 2018. Un o brif ddyletswyddau'r swydd yw cynnal arolygiadau hylendid bwyd. | Bydd y Gwasanaeth yn penodi dau swyddog ar sail barhaol yn ystod tymor yr Hydref 2018.<br><br>Un o brif ddyletswyddau'r ddwy swydd fydd cynnal arolygiadau hylendid bwyd.<br><br>Er na fydd y penodiadau yn ein galluogi i gwrdd ar argymhelliad erbyn y dyddiad targed 1/1/19 mi ddylid eu bod ymhen amser. |
| 7.26 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau ei hun [Y Safon – 7.2] | **Cynnydd da** | Sicrhau fod dogfennau cofrestru eiddo bwyd yn cael stamp dyddiad wedi eu derbyn ac ein bod yn dilyn y canllawiau yn union wrth ddelio a / cyhoeddi cymeradwyaeth amodol i sefydliadau cymeradwy | Monitro rheolaidd o ansawdd gwaith / trefniadau |
| 7.26 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal i'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | **Targed cydymffurfio 1/4/20** | Dilyn rhaglen arolygu / monitro perfformiad safon gwaith / cofnodi | Rhagwelir y bydd mwy o adnodd ( yn nhermau staff ychwanegol) yn caniatau fwy o amser i staff yn gyffredinol gynnal asesiadau o safon uwch. |
| 7.26 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | **Cynnydd da** | Defnydd ffurflenni cofnodi archwiliadau diwygiedig. Monitro ymdrech cofnodi labelu bwyd a bwyd wedi ei fewnforio o du allan i'r Undeb Ewropeaidd | Parhau i fonitro ansawdd cofnodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.46 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau / arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | **Cynnydd da** | | Bydd y Gwasanaeth yn penodi dau swyddog ar sail barhaol yn ystod tymor yr Hydref 2018.<br><br>Un o brif ddyletswyddau'r ddwy swydd fydd cynnal arolygiadau safonau bwyd.<br><br>Dylid fo'r adnodd ychwanegol yn ein galluogi i gwrdd â gofynion y Cod ymhen amser. |
| 7.46 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | **Cynnydd da** | Monitro fod asesiadau trwyadl o gydymffurfiaeth busnesau a gofynion cyfansoddiad bwyd, labelu ac olrhain tarddiad bwyd yn cael eu cynnal a'u cofnodi gan swyddogion | Parhau i fonitro perfformiad yn rheolaidd. |
| 7.46 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | **Cynnydd da** | Asesu cofnodion swyddogion i sefydlu os ydynt yn arddangos fod asesiadau cynhwysfawr o gydymffurfiaeth busnesau wedi eu nodi. | Parhau i fonitro perfformiad yn rheolaidd. |
| 9.6 (i) Sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol mewn perthynas â throseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau a samplau anfoddhaol. [Y Safon – 9.1, 9.4 a 9.6] | **Cynnydd Cyfyngedig** | Staff wedi eu hatgoffa o'r angen i gysylltu gydag Awdurdodau Cynradd, Awdurdodau Cartref neu Awdurdodau gwreiddiol mewn perthynas â throseddau adnabyddir, yn unol ar gofynion. Hefyd yr angen i gofnodi'r ymdrechion hyn. | Monitro Perfformiad / cofnodion rheolaidd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.4 (i) Sicrhau bod data sgoriau risg a hylendid bwyd, ynghyd â dyddiadau arfaethedig arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cynnwys a'u cadw'n gywir yng nghronfa ddata'r awdurdod. [Y Safon – 11.1] | **Cynnydd da** | Rhedeg adroddiadau monitro perfformiad oddi fewn ein system gofnodi gyfrifiadurol i sefydlu a gwirio cam gofnodi | Parhau i fonitro cofnodion yn rheolaidd |
| 12.10 (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | **Cynnydd da** | Asesu cofnodion i sicrhau fod canlyniadau samplu bwyd anfoddhaol yn cael eu cyflwyno i'r gweithredwr busnes bwyd.<br>Sicrhau fod camau gorfodaeth briodol yn cael eu defnyddio i ddelio a samplau anfoddhaol. | Monitro Perfformiad |
| 15.20 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd ynddynt, a chyfeirio at y Cynlluniau Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod. [Y Safon – 15.1] | **Cynnydd da** | Drafft o bolisi gorfodaeth wedi cael ei gynhyrchu. | Angen cynhyrchu fersiwn terfynol i'w gymeradwyo dan y drefn hawliau dirprwyedig perthnasol. |
| 15.20 (iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Gwella Hylendid, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.3] | **Cynnydd da** | Asesu cofnodion i sicrhau fod dull cyflwyno rhybuddion wedi ei nodi yn glir a fo asesiadau cydymffurfiaeth yn cael eu cynnal yn brydlon.<br>Hefyd asesu os yw cofnodion ildio bwyd / cau busnes bwyd yn wirfoddol wedi eu cwblhau yn unol â gofynion y cod | Monitro perfformiad / ansawdd cofnodion. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15.20 (iv)Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r Awdurdod. Dylid dogfennu'r rhesymau am unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | **Cynnydd da** | Atgoffa staff o'r angen i ddilyn y polisi gorfodaeth wrth ddelio gydag archwiliadau / samplau bwyd anfoddhaol.<br>Monitro cofnodion | Monitro Perfformiad rheolaidd |
| 16.15 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd eu cynnal a'u cadw a'u bod yn hygyrch, y caiff busnesau eu darparu ag adroddiad yn dilyn ymyriad/arolygiad, a bod adroddiadau am safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon - 16.1] | **Cynnydd da** | Cynnal asesiadau rheolaidd o gofnodion archwiliadau busnesau bwyd swyddogion i sicrhau eu bod wedi nodi'r bobl a holwyd tra buont yn cynnal archwiliad a fo gofynion statudol ac argymhellion wedi eu gwahaniaethu'n glir yn eu hadroddiadau. | Monitro perfformiad rheolaidd |
| 19.10 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | **Cynydd da** | Rhaglen monitro perfformiad bob mis/ deufis ac yn chwarterol yn ei le . Canlyniadau yn cael eu hadrodd a'u harchwilio gan reolwyr / pwyllgor craffu.<br><br>Adroddiadau 'byw'ar gael i reolwyr asesu perfformiad rhai agweddau yn syth oddi wrth system cofnnodi gyfrifiadurol y gwasanaeth. | Parhau ar trefniadau. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **11 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd** |
| **AWDUR** | **Owain Griffith** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD GARETH GRIFFITH** |
| **PWRPAS** | **I amlygu'r oblygiadau i'r Cyngor a datblygwyr drwy weithrediad Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010.** |

**Cefndir**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) yn dod i rym ar y 7fed o Ionawr, 2019. Yn unol â'r Ddeddf rhaid i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) sy'n bodloni safonau cenedlaethol. Mae felly yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol i sefydlu corff fydd yn derbyn, cymeradwyo, mabwysiadu a gorfodi nodweddion SDC, yn unol â'r Rheoliadau newydd - sef y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCS).

**Beth yw Systemau Draenio Cynaliadwy?**

Mae agwedd Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn dynwared draenio naturiol, gan reoli dŵr ffo ar yr wyneb neu'n agos ato, ac mor agos at ei darddiad ag sydd modd, gan reoli'r llif (cyfaint a chyfradd y dŵr ffo) a rhoi amrywiaeth o fanteision ychwanegol. Mae'n gwrthgyferbynnu â'r technegau draenio traddodiadol, sy'n seiliedig ar bibelli tanddaear i gludo dŵr glaw ymaith o eiddo mor fuan ag sydd modd. Tra bydd pibelli yn aml yn cael eu defnyddio mewn systemau draenio SDC, eithriad fydd adeiladu systemau draenio dŵr wyneb ar ffurf pibelli carthffos yn unig. Mae'r SDC mwyaf effeithiol yn defnyddio cyfres o amrywiol gydrannau draenio (gan ddefnyddio unedau llystyfiannol lle mae hynny'n bosib), gan weithredu mor agos ag sy'n ymarferol at darddiad y dŵr ffo, gweithio fel dilyniant rheoli SDC (gweler yr eirfa) i reoli cyfraddau llif a lleihau cyfeintiau'r dŵr ffo, yn ogystal â thrin - a thrwy hynny warchod yr amgylchedd sy'n ei dderbyn.

Bydd SuDS sydd wedi eu dylunio'n dda ac yn hawdd i'w cynnal a'u cadw yn rhoi nifer o fanteision pwysig i'r amgylchedd lleol, i'r datblygiad ac i gymunedau lleol. Mae cydrannau draenio cynaliadwy ar yr wyneb yn weladwy o ran eu gweithredu a'u perfformiad, ac fel rheol maent yn symlach ac yn haws eu gweithredu, eu monitro a'u cynnal. Mae modd gwneud hyn fel arfer ochr yn ochr â gwaith arferol rheoli'r tirwedd, neu fel rhan ohono, ar unrhyw safle.

**Proses**

Dylid ystyried systemau draenio yng nghyfnodau cynharaf dylunio safle er mwyn cael dylanwad ar gynllun y ffyrdd, yr adeiladau a’r mannau agored cyhoeddus. Dylai’r topograffeg a gofynion rheoli’r systemau dŵr wyneb fod yn sylfaen i gynllunio ffurf safle newydd, er mwyn draenio’r dŵr ffo a’i drin yn effeithiol. Lle bo datblygiad yn digwydd fesul cam, dylai dyluniad y cynllun SDC ystyried effeithiau pob cam yn ogystal â’r datblygiad yn ei gyfanrwydd ar berfformiad y system ddraenio dŵr wyneb.

Tra bod y broses gynllunio a’r proses cymeradwyo SDC yn ddwy broses ar wahân dan ddeddfwriaeth wahanol, mi fydd gan y naill ddylanwad ar y llall. Mae gofynion y CCS wedi ei gosod allan mewn ffordd sydd yn efelychu’r proses Cynllunio, fel bod a ddwy broses yn gallu digwydd ar y cyd. Bydd y Cyngor yn paratoi canllawiau ar gyfer datblygwyr yn amlinellu’r berthynas rhwng gofynion Cynllunio ag gofynion SDC gyda’r bwriad o annog datblygwyr i gynnal trafodaethau cynnar gyda’r ddau gorff cyn cyflwyno cais.

Bydd unrhyw ddatblygiad sydd ag oblygiadau draenio tir o fwy nag un tŷ, neu gydag arwynebedd adeiladu ac oblygiadau draenio o dros 100m2 yn syrthio o fewn ofynion y ddeddf gan olygu bydd rhaid i’r CCS gymeradwyo'r dyluniad SDC. Mi fydd na ofyn ar y CCS fabwysiadu’r system SDC os yw’n gwasanaethu mwy nag un tŷ, ac wedi ei adeiladu yn unol â’r safonau cenedlaethol.


Mae diagram llif syml yn amlinellu gofynion y Corff Cymeradwyo SDC (CCS) wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

**Oblygiadau i’r Cyngor**

Mae creu corff o’r fath yn ofyn statudol newydd ar awdurdodau lleol, ond nid oes cyllid ychwanegol yn dod gan Lywodraeth Cymru. Yn yr hir dymor fe ddylai’r Corff fod yn hunan-ariannol, gyda’r ffioedd sydd ynghlwm a'r ceisiadau yn talu’r costau rhedeg. Mae yna fuddsoddiad sylweddol o ran amser staff wedi ei wneud yn barod, ag angen ei barhau dros y misoedd nesaf er mwyn sefydlu'r corff a datblygu prosesau a chyfundrefnau newydd i wneud yn siŵr fod yr Awdurdod mewn lle i dderbyn ceisiadau o fis Ionawr ymlaen.

Mae sefydlu a gweithredu’r CCS yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor. Yn unol â’r rheoliadau newydd mi fydd nifer o achosion lle bydd hi’n ofynnol i'r Cyngor i fabwysiadau’r a chynnal a chadw’r nodweddion SDC. Heb brosesau a chyfundrefnau priodol mewn lle i wneud yn siŵr fod y systemau yn cael ei dylunio, adeiladu a’i chynnal yn gywir, mae yna risg ariannol i'r Cyngor drwy orfod mabwysiadau asedau o’r fath.

**Atodlen 1 – Diagram Llif CCS**


Cynllunio a Dylunio SuDS
Cynllunio
Cymeradwyo
Adeiladu
Mabwysiadu a Chynnal
Cynllunio cyn gwneud cais SuDS
Dyluniad draenio cysyniadol
Cymeradwyaeth amlinellol ac amodau gan y corff cymeradwyo
Dyluniad draenio amlinellol
(gallai fod yr un pryd â chaniatâd cynllunio ACLI)
Dyluniad draenio manwl
(gallai fod yr un pryd â chymeradwyo rheoliadau adeiladu)
Cymeradwyo system ddraenio a rhoi caniatâd adeiladu
Adeiladu, archwilio ac ardystio ei fod wedi cael ei adeiladu fel y cafodd ei gymeradwyo
Adeiladu'r cynllun yn unol â'r dyluniad a gymeradwywyd
Rheoli'r System Ddraenio
Safonau Cenedlaethol Gorfodol SuDS, Canllawiau a Pholisïau Lleol SuDS
Trafod amcanion rheoli dŵr wyneb strategol
Proses Gwneud Cais SuDS
Cyn i'r datblygu ddechrau, trafodaeth cyn gwneud cais rhwng y datblygwr, corff cymeradwyo SuDS, Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), Ymgyngoreion Statudol, a rhanddeiliaid eraill (adrannau eraill y cyngor, partïon eraill sydd â diddordeb ac ymgyngoreion eraill)
Ceisiadau i gynnwys cynllun cynnal a chadw y SuDS
Mae'n bosibl y codir ffi am waith a wnaethpwyd gan y corff cymeradwyo mewn cysylltiad â chymeradwyo
Anfon cais SuDS gyda chais cynllunio i'r ACLI (cais cyfun)
Anfon cais SuDS i gorff cymeradwyo SuDS (cais annibynnol)
ACLI yn anfon cais SuDS i'r corff cymeradwyo SuDS
Y corff cymeradwyo yn cymeradwyo'r cais SuDS yn unol â safonau cenedlaethol SuDS ac yn amodol ar unrhyw amodau eraill a osodir gan y corff cymeradwyo
Ymgyngoreion statudol yn rhoi tystiolaeth a chyngor
Bydd angen ailgyflwyno ceisiadau nad ydynt yn gydnaws â dyluniad a gymeradwywyd gan y corff cymeradwyo
Mae'n bosibl y codir bond methu â chyflawni
Gorfodaeth ac Apeliadau
• Gall y corff cymeradwyo SuDS gychwyn achos gorfodaeth os torrir cytundeb ac amodau a gymeradwywyd gan y corff cymeradwyo.
• Mae gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cymeradwyo a mabwysiadu'r corff cymeradwyo.
Datblygwr yn adeiladu'r SuDS fel y cawsant eu cymeradwyo
Dychwelyd neu ddefnyddio'r bond methu â chyflawni
Rhaid i'r corff cymeradwyo fabwysiadu SuDS sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo os yw'n fodlon bod y SuDS yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ac unrhyw amodau a nodwyd gan y corff cymeradwyo SuDS
Mae gan y corff cymeradwyo gyfrifoldeb i sicrhau bod SuDS a fabwysiedir yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â safonau cenedlaethol gorfodol (ond gall y gwaith cynnal a chadw gael ei wneud gan sefydliad arall)

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad | 11 Hydref 2018 |
| Pwnc | Diweddariad ar yr Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg |
| Cadeirydd y Gweithgor | Cynghorydd Gruffydd Williams |
| Aelod Cabinet | Cynghorydd Dafydd Meurig |
| | Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried mabwysiadu'r Diweddariad |

CEFNDIR

1 Yng nghyfarfod arbennig o'r Cygnor llawn ar 28 Gorffennaf 2017, fe fabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

2 Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu yma ar 7 Rhagfyr 2017.

3 Dyma nod yr Ymchwiliad:

Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)

Cymal A Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol;

Cymal B Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;

Cymal C Craffu sut y bwriedir gweithredu ar y CCA yng nghyd-destun gofynion y TAN 20 newydd;

Cymal CH Derbyn trosolwg o'r sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd adeg ymgynghori cyhoeddus am y CCA drafft er mwyn cyflwyno barn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r CCA terfynol gael ei fabwysiadu.

Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)

Cymal D Casglu tystiolaeth i lunio syniadau ac awgrymiadau ar gyfer ystyriaeth Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddylanwadu ar bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn y dyfodol.

**4** **Camau ac Amserlen Ddiwygiedig** Fersiwn DRAFFT Medi 2018

| | | |
|---|---|---|
| 17 Tachwedd 2017 | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | - Diweddariad am rôl CCA, proses, amserlen ac amlinelliad o gynnwys posib y CCA. |
| 7 Rhagfyr 2017 | Pwyllgor Craffu Cymunedau | - Diweddariad am rôl CCA, proses, amserlen ac amlinelliad o gynnwys posib y CCA. |
| Diwedd Tachwedd | Gweithgor Craffu | - Cytuno ar y briff er mwyn ychwanegu gwerth i'r broses, e.e. canolbwyntio ar broses paratoi'r CCA er mwyn sicrhau bod y trefniadau priodol yn ei le i gael adborth gan ran ddeiliaid perthnasol; ystyried fframwaith drafft sy'n adnabod gofynion ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer Asesiad Effaith Iaith Gymraeg; a chasglu tystiolaeth er mwyn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r NCT 20 eto – gall hyn gynnwys trafod efo Awdurdodau eraill yng Ngorllewin Cymru a rhai eraill yng Ngogledd Cymru. |
| Rhagfyr 2017 | Gweithgor Craffu | - ystyried fframwaith drafft sy'n adnabod gofynion ar gyfer Datganiad Iaith Gymraeg. |
| Dechrau Ionawr 2018 | Gweithgor Craffu | - ystyried fframwaith drafft sy'n adnabod gofynion ar gyfer Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |
| 22 Mawrth 2018 | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | - Ystyried argymhellion Aelodau'r Gweithgor Craffu<br>- Ystyried CCA drafft ymgynghoriad cyhoeddus |
| 19 Ebrill 2018 | Pwyllgor Craffu Cymunedau | - Ystyried argymhellion Aelodau'r Gweithgor Craffu ac ar sail hynny gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| 26 Ebrill 2018 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | - Ystyried argymhellion Pwyllgor Craffu Cymunedau;<br>- Ystyried CCA drafft ymgynghoriad cyhoeddus;<br>- Penderfynu gohirio amserlen ddrafft yr ymgynghoriad a |

| | | |
|---|---|---|
| | | chomisiynu gwerthusiad beirniadol o'r CCA drafft ymgynghorol ac ysgrifennu llythyr i Lywodraeth Cymru am hawliau'n gysylltiedig â newid polisi cynllunio ac ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio cyn cyhoeddi'r CCA am ymgynghoriad cyhoeddus |
| 14 Mehefin 2018 | Pwyllgor Craffu Cymunedau | - Trafodaeth ar Ddiweddariad y Gweithgor Craffu'n cael ei ohirio. |
| 10 Medi 2018 | Gweithgor Craffu | - Ystyried tystiolaeth am Ddatganiadau ac Asesiadau Iaith |
| 17 Medi 2018 | Gweithgor Craffu | - Ystyried tystiolaeth a diweddariad am y NCT 20. |
| 11 Hydref 2018 | Pwyllgor Craffu Cymunedau | - Ystyried Diweddariad am ran 1 o'r Briff |
| 26 Hydref 2018 | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | - Ystyried Gwerthusiad Iaith Cyf a Burum a'r drafft diwygiedig o'r CCA.<br>- Cytuno unrhyw newidiadau ar gyfer cyflwyno drafft terfynol i'r Cyd-bwyllgor. |
| (dyddiad i'w gadarnhau – bydd angen i hwn ddigwydd mfap ar ôl 26/10/18 er mwyn i'r Uned Polisi Cynllunio dderbyn sylwadau ysgrifenedig Cadeirydd y Gweithgor a llunio cyngor amdanynt i'r Pwyllgor ar 16/11 – papurau'n cael eu dosbarthu 8/11) | Gweithgor Craffu | Rhan 1 y Briff<br>- Ystyried adroddiad Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, cofnodion cyfarfod y Panel a fydd yn sail i'r adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn dod i gasgliad os yw'r diwygiadau i'r CCA drafft ymgynghorol yn cyd-fynd ag argymhellion y Gwerthusiad gan Iaith Cyf a Burum;<br>- Paratoi sylwadau ysgrifenedig yn enw Cadeirydd y gweithgor ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor Polisi ar y Cyd<br>-<br><br>Rhan 2 y Briff<br>- Ystyried arfer da a phrofiadau gwledydd eraill – Adroddiad Mercator |
| 16 Tachwedd 2018 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | - Cadeirydd y Gweithgor i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor eu hystyried<br>- Ystyried drafft terfynol CCA a'r Cynllun Ymgysylltu |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Cytuno fersiwn terfynol ar gyfer ymgynghori. |
| Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019 (cyfnod 7 wythnos yn lle 6 wythnos oherwydd y Nadolig) | Ymgynghoriad Cyhoeddus am y CCA drafft ymgynghorol diwygiedig | - Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cyhoeddi'r CCA mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, ar wefannau a chysylltu gyda budd-ddeiliaid amrywiol;<br>- Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn derbyn, cofnodi ac ystyried sylwadau & adnabod newidiadau drafft mewn ymgynghoriad efo swyddogion iaith, swyddogion cynllunio a'r ymgynghorwyr wnaeth y gwerthusiad beirniadol |
| 13 Rhagfyr 2018 | Pwyllgor Craffu Cymunedau | <u>Rhan 1 o'r Briff</u><br>- Ystyried Diweddariad – cadarnhad o benderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus (Rhan 1 o'r Briff)<br><u>Rhan 2 o'r Briff</u><br>- Ystyried diweddariad |
| 22 Mawrth 2019 | Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | - Ystyried sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am y CCA (yr adroddiad am yr ymgynghori);<br>- Ystyried CCA drafft terfynol a chynnig sylwadau dechreuol amdano |
| 25 Mawrth 2019 | Gweithgor Craffu | <u>Rhan 1 o'r Briff</u><br>- Ystyried adroddiad y Panel ynglyn â'r adroddiad am yr ymgynghori, cofnodion y Panel, a'r CCA drafft terfynol;<br>- Llunio argymhellion i'r Pwyllgor Craffu am y broses paratoi'r CCA |
| 4 Ebrill 2019 & 9 Ebrill 2019 | Pwyllgor Craffu Cymunedau & Pwyllgor Scriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Cyngor Sir Ynys Mon) | <u>Rhan 1 o'r Briff</u><br>- (Gwynedd) Ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor am y broses paratoi'r CCA;<br>- (Ynys Mon) Ystyried drafft terfynol o'r CCA a'r broses o'i baratoi |

| | | |
|---|---|---|
| Mai 2019 | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | - Ystyried yr adroddiad am yr ymgynghoriad cyhoeddus ac unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Scriwtini Partneriaeth ac Adfywio;<br>- Ystyried mabwysiadu'r CCA |